# Arolwg Defnydd Llety Cymru 2010 Adroddiad Terfynol

**JN: 206860**

**Dyddiad: Gorffennaf 2011**

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl
v.121009

# Arolwg Defnydd Llety Cymru 2010

## Adroddiad Terfynol

Croeso Cymru

Dyddiad: Gorffennaf 2011

Paratowyd gan:

**TNS-RI Travel and Tourism**

23 Alva Street
Caeredin/Edinburgh, EH2 4PS

Ffôn: 0131 2433900
Ffacs: 0131 2433901
e-bost: enquiries@tns-ri.co.uk

**206860**

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl.

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol........................................................................... 1

Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2010 yn 51%, dri phwynt canran is na'r hyn a gofnodwyd yn 2009 a'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2007. Gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref hefyd o 71% yn 2009 i 67% yn 2010, eto'r gyfradd isaf a gofnodwyd am y pedair blynedd ddiwethaf. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd yr amrywiadau mwyaf rhwng 2009 a 2010 ar gyfer misoedd Gorffennaf (saith pwynt canran) a Hydref (chwe phwynt canran). Nid yw lefelau defnydd eto wedi adfer o'r arafu economaidd yn 2008 ac mae'r cynnydd yng nghostau tanwydd mewn blynyddoedd diweddar hefyd wedi effeithio arnynt........... 10

Tabl 1-3 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Asiantaeth(%) ............ 10

2. Cyflwyniad a Methodoleg ............................................................................ 14

3. Gwestai......................................................................................................... 20

Fel mewn blynyddoedd diweddar, mae'r cyfraddau defnydd a gofnodwyd yn 2010 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 26% yn ystod Ionawr 2010, gan gynyddu i frig o 57% yn Awst cyn gostwng i 29% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 69% i 70% rhwng Mehefin a Medi, a'r cyfraddau isaf yn Ionawr a Rhagfyr (39% a 42% yn yr un drefn). 21


Tueddiadau yng Nghanran Gwesteion Tramor ................................................... 25

Fel y dangosir yn Ffigur 3-5 islaw, roedd y canran gwesteion tramor a gofnodwyd rhwng 2008 a 2010 yn 5%. ....................................................................... 25

Canran Gwesteion Busnes ..................................................................... 27


Ffigur 3-8 – Gwestai – Canran Cyfartalog Blynyddol Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth 2003 – 2010 (%) ....................................................................... 28

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl.





Dadansoddiad Manwl o’r Prif Ganlyniadau .......................................................... 28

Ffigur 3-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%) ........................................................................................ 31




33




34

4. Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast ........................................ 35

Maint y Sampl........................................................................................ 35

**Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd** ............................ 36

Tabl 4-1 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%) .................................................. 37

Canran Gwesteion Tramor ..................................................................... 39

Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau ............................................. 42

Ffigur 4-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%) ............................................... 44

Ffigur 4-13 – Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2010 (%) ........................................................................................................ 46


Ffigur 4-14 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%) .......................................... 47

5. Pob Llety â Gwasaneth ...................................................................... 48

Ffigur 5-1 – Llety â Gwasanaeth – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%) ....................................................................... 48

tns research international

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl.




Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd ................................................................ 48

Ffigur 5-2 – Pob Llety â Gwasanaeth – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2010 (%) ................................................................................................ 49

Canran Gwesteion Tramor ................................................................................ 49

Ffigur F-3 – Pob Llety â Gwasanaeth – Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008-2010 (%) ................................................................................................ 50

6. Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar ............................................................ 51

Maint y Sampl................................................................................................ 51

Defnydd Misol Unedau .................................................................................... 53

Ffigur 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Annibynnol(%) ......... 54

Tabl 6-3 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Asiantaeth (%) ........... 55

Tueddiadau Rhanbarthol .................................................................................. 56

Defnydd yn ôl Graddiad .................................................................................... 66

7. Cartrefi Gwyliau Carafan a Chabannau ............................................................ 68

Maint y Sampl................................................................................................ 68

Tabl 7-1 – Maint Sampl – Cartrefi Gwyliau Carafan ............................................... 68

Ffigur 7-1 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan (%) ........................ 69

Tueddiadau Rhanbarthol .................................................................................. 70

Ffigur 7-2 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – Gogledd (%)...... 70

8. Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla ........................................................... 76

Maint y Sampl................................................................................................ 76

Tabl 8-1 – Maint Sampl – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla ......................... 76

Defnydd Misol Unedau .................................................................................... 77

9. Hostelau a Thai Bynciau .................................................................................. 84

Atodiad 1: Gwestai ........................................................................................... 91

tns research international

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl.

Atodiad 2: Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast ........ 94

Atodiad 3: Llety Hunanddarpar ........ 97

Atodiad 4: Ffurflenni Misol ........ 100

Atodiad technegol ........ 105

tns research international

© 2009 TNS UK Cyfyngedig. Cedwir pob hawl.

# 1. Crynodeb Gweithredol


Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb raddiad.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Ers 2003, fodd bynnag, defnyddiwyd yr un fethodoleg a meddalwedd i ddadansoddi'r data. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán a pharciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwmpas yr arolwg.

**Gwestai**


Yn 2010 roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 43% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 59%. Mae hyn yn gynnydd bychan o un pwynt canran ar y cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn 2009 (42% a 58% yn yr un drefn).

**Ffigur 3-1 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)**




Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2010 yn Ffigur 3-2 ar y dudalen nesaf.

**Ffigur 3-2 – Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2010 (%)**





Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd y cyfraddau defnydd a adroddwyd yn 2010 i adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 26% yn Ionawr 2010 cyn codi i frig o 57% ym mis Awst a gostwng i 29% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 69% i 70% wedi'u cofnodi rhwng Mehefin a Medi, gyda'r cyfraddau isaf wedi'u cofnodi yn Ionawr a Rhagfyr (39% a 42% yn yr un drefn).

*Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol*

Mae Ffigur 3-3 ar y dudalen nesaf yn rhoi'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru.

**Ffigur 3-3 - Gwestai – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2010 (%)**




Yn 2010, cofnododd rhanbarthau y De Ddwyrain a hefyd y De Orllewin gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 42%, a chofnododd y Gogledd gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 45%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y Canolbarth gofnododd y gyfradd isaf ar gyfer defnydd gwelyau, oedd ar 38% yn gyfartal i'r un a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2009.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o amrywiad rhwng y rhanbarthau pan gânt eu dadansoddi yn ôl eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfartaleddau blynyddol tebyg o 61% a 62% yn yr un drefn, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 54% a'r rhai yn y Canolbarth y cyfartaledd blynyddol isaf o 49%.

*Canran Gwesteion Tramor*

Yn ôl y disgwyl, roedd defnydd tramor ar ei uchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 5%-6% rhwng Mai a Medi 2010, ac eithrio Awst lle gostyngodd y gyfradd yma i 43% cyn dychwelyd i 6% ym Medi. Y ganran isaf a gofnodwyd drwy gydol y flwyddyn oedd 3% yn Rhagfyr, tra bod y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion tramor yn 5%.

*Canran Gwesteion Busnes*

Roedd y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion busnes yn 15%, y gyfradd isaf a gofnodwyd dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Mae ffigur 2010 yn ostyngiad o dri phwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2009 (18%) ac yn ostyngiad o bum pwynt canran yn y gyfradd a gofnodwyd yn 2008 (20%). Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf yn Chwefror 2010 o gymharu â'r un mis yn 2009 (19% a 26% yn yr un drefn), a dim ond yn Nhachwedd y cofnodwyd cynnydd, lle'r oedd cyfradd 2010 o 24% bum pwynt canran yn uwch na chyfradd Tachwedd 2009 o 19%.

*Defnydd yn ôl Maint Gwesty*

Cofnododd gwestai gyda dros 100 o ystafelloedd gyfradd defnydd cyfartalog o 52% ar gyfer gwelyau, cyfradd 17 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer gwestai gyda 4-10 ystafell. Yn yr un modd, pan y'u dadansoddir yn ôl defnydd ystafelloedd, roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer sefydliadau gyda dros 100 ystafell (65%) 23 pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer rhai gyda 4-10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae nifer o ffactorau a fedrai fod wedi cyfrannu at y gyd-berthynas gadarnhaol yma. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer ohonynt mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod â gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

*Defnydd yn ôl Tariff*

Yn gyffredinol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godir a lefelau defnydd ar gyfer gwestai eto yn 2010. Sefydliadau'n codi £50-£59.99 gofnododd y gyfradd defnydd flynyddol gyfartalog uchaf (48%), fodd bynnag, ar 46% roedd y gyfradd ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy ddeuddeg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan y rhai'n codi £30-£39.99. Pan y'u dadansoddir yn ôl defnydd ystafell, roedd cyd-berthynas yn amlwg, gyda chyfradd o 61% wedi'i chofnodi gan westai'n codi £60 neu fwy o gymharu gyda 45% ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Mae'n debygol i westai yn y bandiau tariff uchaf ddenu cyfran uwch o westeion busnes ac felly ystafelloedd defnydd sengl.

*Defnydd yn ôl Lleoliad*

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty – mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu mewn ardal wledig/pentref.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr gofnododd y cyfraddau blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2010 (48% a 66% yn yr un drefn). Cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer gwestai mewn trefi bach (40%), a chofnodwyd y gyfradd flynyddol isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref (53%). Yn flaenorol, gwestai mewn lleoliadau dinas/tref fawr gofnododd y gwahaniaeth mwyaf rhwng eu cyfraddau defnydd blynyddol cyfartalog ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd. Fodd bynnag, yn 2010, cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach, gwahaniaeth o 19 pwynt canran.

*Defnydd yn ôl Graddiad*

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru).


O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 57% a 67% ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn yr un drefn.

**Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast**

*Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd*

Yn gyffredinol, nid yw cyfraddau defnydd Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast hyd yma wedi adfer o effeithiau'r dirwasgiad economaidd. Gostyngodd y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan un pwynt canran yn 2010 i 29% a 37% yn yr un drefn, yr un cyfraddau ag a gofnodwyd yn 2008. Dyma'r cyfraddau defnydd isaf a gofnodwyd dros y naw mlynedd ddiwethaf.


**Ffigur 4-1 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)**



*Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd*

Cyflwynir cyfraddau defnydd misol ystafelloedd a gwelyau ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn 2010 yn Ffigur 4-2 islaw.


**Ffigur 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2010 (%)**




Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar eu huchaf ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Fedi). Amrywiodd lefelau defnydd gwelyau o 10% yn Ionawr i frig o 47% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn dilyn patrwm tebyg gan ddringo o 15% yn Ionawr i 57% yn Awst cyn gostwng i 18% yn Rhagfyr 2010.

*Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol*

**Ffigur 4-3 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2010 (%)**




Fel yn 2009, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau uchaf ar gyfer rhanbarth y De Orllewin yn 2010 (34%). Cofnododd sefydliadau yng Ngogledd Cymru gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 32% tra cofnodwyd cyfraddau is gan y rhai yn y De Ddwyrain (27% a'r Canolbarth (25%). Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau yn y Canolbarth yn 31%, cyfran is nag a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth arall.

*Canran Gwesteion Tramor*

Yn draddodiadol, bu'r canran o westeion tramor ar ei uchaf yn ystod y cyfnod Mai i Fedi. Er bod y gyfradd a gofnodwyd ar gyfer Gorffennaf 2010 yn un o'r uchaf ar 15%, cofnodwyd cyfradd o 16% yn Rhagfyr 2010. Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd cyfraddau defnydd cyffredinol yn Rhagfyr yn is nag yn 2009, gan ddangos bod sefydliadau yn y sector wedi derbyn cyfran is o ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig yn ystod y mis, mae'n debyg oherwydd tywydd difrifol y gaeaf.

*Defnydd yn ôl maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast*

Fel y nodwyd yn flaenorol ar gyfer y sector yma ac ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod cyd-berthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliad. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau defnydd cyfartalog o 32% ar gyfer gwelyau a 40% ar gyfer ystafelloedd o gymharu gyda 26% a 32% yn yr un drefn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'n debyg bod y defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd o ddenu gwesteion busnes.

*Defnydd yn ôl Tariff*

Cofnododd sefydliadau'n codi £60 neu fwy gyfraddau cyfartalog o 44% ar gyfer defnydd gwelyau a 54% ar gyfer ystafelloedd o gymharu gyda 23% a 28% yn yr un drefn ar gyfer rhai'n codi £20-£29.99. Y rhai sy'n codi £60 neu fwy hefyd gofnododd y gwahaniaeth mwyaf rhwng eu cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd (deg pwynt canran), gan awgrymu fod y sefydliadau hyn yn derbyn cyfran uwch o ddefnyddwyr busnes.

*Defnydd yn ôl Lleoliad*

Mewn blynyddoedd blaenorol, bu lefelau defnydd ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr yn amlwg uwch na'r rhai mewn trefi bach neu ardaloedd gwledig, er oherwydd maint cymharol fach y sampl, mae angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Fodd bynnag, yn 2010, roedd y cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd mewn ardaloedd glan môr (37% a 36% yn yr un drefn) gyda dinasoedd/trefi mawr (31% a 42% yn yr un drefn) yn dilyn.

*Defnydd yn ôl Graddiad*

Roedd cyd-berthynas gadarnhaol rhwng lefelau defnydd a graddiad seren yn 2010. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ac ystafelloedd oedd 11 a 7 pwynt canran yn uwch yn yr un drefn o gymharu â rhai gyda graddiad 3 seren. Fel yn y tair blynedd flaenorol, roedd gan sefydliadau gyda graddiad lefelau cyfartalog uwch ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd na rhai heb unrhyw raddiad.

**Pob Llety**

Mae'r gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer pob llety â gwasanaeth wedi parhau'n gyson ar 38% am y tair blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, bu cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd ystafelloedd yn 52% am y tair blynedd ddiwethaf.

Rhwng Mai a Medi, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 47% - 53% tra bod cyfradd cyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 57% - 63% yn yr un cyfnod. Mae effaith cyfnod gwyliau'r Pasg yn glir, gyda chynnydd o ddeg pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng Mawrth ac Ebrill a chynnydd o naw pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng y ddau fis yma.


## Llety hunanddarpar

*Bythynnod a Rhandai*

### Defnydd Unedau Misol

Mae Ffigur 6-1 islaw yn cyflwyno cyfraddau defnydd blaenorol ar gyfer 2008 i 2010 ar draws gweithredwyr annibynnol ac asiantaeth.

**Ffigur 6-1- Defnydd Unedau Misol – Bythynnod a Rhandai CYFAN (%)**




Mae'r gyfradd fisol ar gyfer defnydd unedau yn amrywio ar gyfer pob math o uned yn 2010, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan adlewyrchu natur dymhorol y sector. Roedd cyfradd defnydd unedau misol Ionawr 2010 yn 17%, ffigur a gynyddodd i 81% yn Awst cyn gostwng i 22% yn Nhachwedd. Rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2010 cynyddodd y gyfradd yma gan 13 pwynt canran, gan adlewyrchu effaith cyfnod gwyliau'r Nadolig. Roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer pob uned yn 2010 yn 45%.

**Tabl 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 22 | 23 | 24 | 22 |
| Chwefror | 40 | 40 | 39 | 34 |
| Mawrth | 43 | 43 | 37 | 36 |
| Ebrill | 54 | 48 | 55 | 56 |
| Mai | 69 | 61 | 62 | 58 |
| Mehefin | 76 | 67 | 70 | 67 |
| Gorffennaf | 86 | 76 | 80 | 73 |
| Awst | 93 | 87 | 88 | 86 |
| Medi | 73 | 69 | 72 | 67 |
| Hydref | 60 | 52 | 55 | 49 |
| Tachwedd | 32 | 26 | 27 | 27 |
| Rhagfyr | 39 | 42 | 36 | 34 |
| *Cyfartaledd Mai - Hydref* | *76* | *69* | *71* | *67* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *57* | *53* | *54* | *51* |

Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2010 yn 51%, dri phwynt canran is na’r hyn a gofnodwyd yn 2009 a’r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2007. Gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref hefyd o 71% yn 2009 i 67% yn 2010, eto’r gyfradd isaf a gofnodwyd am y pedair blynedd ddiwethaf. Pan y’u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd yr amrywiadau mwyaf rhwng 2009 a 2010 ar gyfer misoedd Gorffennaf (saith pwynt canran) a Hydref (chwe phwynt canran). Nid yw lefelau defnydd eto wedi adfer o’r arafu economaidd yn 2008 ac mae’r cynnydd yng nghostau tanwydd mewn blynyddoedd diweddar hefyd wedi effeithio arnynt.


**Tabl 1-3 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Asiantaeth(%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | |
|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 24 | 16 | 13 |
| Chwefror | 36 | 45 | 35 |
| Mawrth | 35 | 44 | 39 |
| Ebrill | 47 | 49 | 44 |
| Mai | 51 | 52 | 49 |
| Mehefin | 51 | 43 | 56 |
| Gorffennaf | 59 | 54 | 64 |
| Awst | 78 | 63 | 78 |
| Medi | 58 | 51 | 56 |
| Hydref | 44 | 36 | 21 |
| Tachwedd | 23 | 17 | 20 |
| Rhagfyr | 29 | 57 | 38 |
| *Cyfartaledd Mai – Hydref* | *57* | *50* | *54* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *45* | *45* | *43* |

Yn 2010, roedd cyfradd fisol defnydd unedau a osodwyd gan asiant yn amrywio rhwng 13% yn Ionawr i 78% yn Awst i 20% yn Nhachwedd. Fel gyda gweithredwyr annibynnol, cofnododd unedau a osodwyd gan asiantaethau gynnydd rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2010 (o 20% i 38%, gan adlewyrchu cyfnod gwyliau'r Nadolig.

*Cartrefi Gwyliau Carafan*

**Ffigur 7-1 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)**





Rhwng Mawrth ac Ebrill 2010, cynyddodd defnydd misol unedau cartrefi gwyliau carafan gan 46 pwynt canran, gan ddangos pwysigrwydd cyfnod gwyliau'r Pasg i'r sector llety yma. Hefyd, mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn Ebrill i fanteisio ar gyfnod gwyliau'r Pasg. Rhwng Mai a Medi, amrywiodd cyfraddau cyfartalog unedau misol rhwng 64% - 91%, gyda'r gyfradd uchaf yn Awst.

Roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer 2010 (75%) 11 pwynt canran yn is na chyfradd 2009 o 86% ond mae'n parhau'n uwch na'r rhai a gofnodwyd yn 2007 (71%) a 2008 (66%). Roedd tystiolaeth o arolygon eraill i gefnogi'r farn fod cynnydd mewn tripiau gwyliau domestig yn ystod 2009 a gostyngiad cyfatebol yn y galw am wyliau tramor ymysg preswylwyr y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn lleoliadau glan môr wrth i bobl ddewis cymryd eu gwyliau yn nes adref.

*Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla*

**Ffigur 8-1 - Defnydd Misol Unedau - Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla (%)**





Yn dilyn gostyngiad yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2008 a 2009 (53% i 39%), cofnodwyd cynnydd o naw pwynt canran yng nghyfartaledd 2010 (48%). Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau cymharol fach y sampl ar gyfer y sector, ynghyd ag amrywiad posibl mewn arolygon rhwng blynyddoedd, wrth gymharu data rhwng blynyddoedd.

Mae cyfartaledd uwch Mai i Hydref 2010 yn awgrymu fod rhai o'r ffactorau hynny y credid eu bod yn cael effaith negyddol yn 2009 yn llai arwyddocaol yn 2010. Yn 2009, ymddangosai, yn seiliedig ar ddata arolwg arall, fod cyfran uwch o bobl wedi cymryd eu gwyliau yn nes adref yn y Deyrnas Unedig drwy gydol y flwyddyn a hefyd y gall llifogydd yr haf fod wedi effeithio mwy ar barciau carafanau teithiol a gwersylla nad ydynt fel arfer yn cael eu harchebu mor bell ymlaen llaw â mathau eraill o lety.

*Hostelau a Thai ByncIau*

**Ffigur 9-1 – Defnydd Misol Gwelyau - Hostelau – (%)**



Roedd y gyfradd fisol ar gyfer defnydd gwelyau yn 14% yn Ionawr 2010. Cynyddodd y ffigur hwn i 66% yn Awst cyn gostwng i 23% yn Rhagfyr. Fel gyda sectorau llety eraill, roedd effaith gwyliau'r Pasg yn Ebrill yn amlwg, gyda chynnydd o 16 pwynt canran yng nghyfradd fisol defnydd gwelyau rhwng Mawrth ac Ebrill 2010 (32% a 49% yn yr un drefn). Erbyn diwedd prif dymor yr haf roedd cyfradd gyfartalog fisol defnydd gwelyau wedi gostwng yn sylweddol, gyda gostyngiad o 22 pwynt canran rhwng Awst (66%) a Medi (44%). Roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2010 yn 41%.

Roedd y cyfraddau a gofnodwyd ar draws 2009 a 2010 yn gymharol gyson, gyda chyfartaledd blynyddol o 41% wedi'i gofnodi am y ddwy flynedd. Mae hyn yn cymharu gyda chyfartaledd blynyddol o 32% a gofnodwyd yn 2008, lle cofnodwyd cyfartaleddau is ar gyfer y rhan fwyaf o'r misoedd.

# 2. Cyflwyniad a Methodoleg

**Cyflwyniad**

Cynhaliwyd arolwg defnydd yn ddi-dor ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad ers 1972 er mwyn monitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion newydd Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, estynnwyd yr arolwg yn 1997 i gynnwys yr holl lety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety gwasanaeth heb raddiad.

Bu gwahanol fformatau ar yr arolwg hunanddarpar ers 1987. Ers 2003, fodd bynnag, bu cysondeb yn y fethodoleg a'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafanau, parciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwmpas yr arolwg.

Lle bo hynny ar gael ac yn addas, cyflwynir ffigurau cymharol o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad. Mae adrannau 3 i 9 yn archwilio pob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn:

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai llety a sefydliadau gwely a brecwast
- Adran 5: Pob llety â gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a rhandai hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi gwyliau carafán
- Adran 8: Parciau carafanau teithio a gwersylla
- Adran 9: Hostelau a thai bynciau.

Cyflwynir copïau o'r ffurflenni misol a lenwyd gan weithredwyr yn Atodiad 4.

**Methodoleg Gwestai a Thai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast**

Gan atgynhyrchu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r arolwg o dai llety, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn arolwg misol o banel o sefydliadau wedi eu lleoli ledled Cymru. Ar ddechrau pob mis, derbyniodd y rhai a gytunodd i gymryd rhan yn yr arolwg yn yr arolwg ffurflen defnydd misol y gofynnwyd iddynt ei llenwi a'i dychwelyd i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd pob mis. Roedd y ffurflen defnydd yn gofyn i weithredwyr gofnodi ar sail ddyddiol: nifer y gwesteion o'r Deyrnas Unedig a thramor yn aros dros nos; y

nifer o westeion ar fusnes; y nifer o ystafelloedd a ddefnyddiwyd; a nifer y lleoedd gwely ac ystafelloedd oedd ar gael.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cafodd y dadansoddiad o ddata'r arolwg ei ail-redeg, gan ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffurflenni a dderbyniwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr ardan yma o'r adroddiad felly'n seiliedig ar yr ail-redeg blynyddol ac felly medrant fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol. Er mwyn gwneud yn iawn am y gwahanol lefelau ymateb gan fathau o sefydliadau, yn ystod y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli gyda nifer yr ystafelloedd ar y lefel ranbarthol a gan faint y sefydliad.

Y prif fesurau y cyfeirir atynt yn yr adroddid yw *lleoedd gwely ac ystafelloedd.*

Mae cyfraddau *defnydd gwelyau* yn cyfeirio at y gyfran o'r holl leoedd gwely sydd ar gael ar unrhyw amser penodol gan westeion sy'n talu am eu lle. Wrth gyfrif y ffigurau hyn, caniateir i gyfanswm nifer y lleoedd gwely amrywio dros y tymor i roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn nifer y gwelyau a gynigir gan westai unigol a llety gwesteion drwy ddefnydd gwelyau ychwanegol, neu ddileu rhai ystafelloedd o ddefnydd.

Mae *defnydd ystafelloedd* yn cyfeirio at y gyfran o ystafelloedd sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol a ddefnyddir gan o leiaf un gwestai sy'n talu am ei le. Mae'r cyfraddau hyn yn wahanol i gyfraddau defnydd gwely oherwydd y gall yr ystafell gael ei defnyddio er nad yw'r holl leoedd gwely yn yr ystafell yn cael eu defnyddio.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y caiff cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd eu cyfrif.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfradd defnydd gwelyau =** | **Cyfanswm nifer y lleoedd gwely a ddefnyddiwyd** / **Cyfanswm nifer y lleoedd gwely ar gael** | **X 100** |
| **Cyfradd defnydd ystafelloedd =** | **Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddiwyd** / **Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely ar gael** | **X 100** |

**Methodoleg bythynnod a rhandai hunanddarpar**

Yn 2009 a hefyd yn 2010, roedd elfen hunanddarpar yr arolwg yn cynnwys cyfnod llawn o ddeuddeg mis. Rhoddir yr opsiwn i weithredwyr hunanddarpar gwblhau eu ffurflenni ar sail ddyddiol neu fisol. Gall misoedd fod yn seiliedig ar bedair, neu bum wythnos, yn dibynnu ar nifer y dyddiau Sadwrn mewn mis neilltuol.

Caiff ffigurau defnydd ar gyfer y mathau eraill o lety hunanddarpar – parciau carafanau teithiol a gwersylla, parciau sefydlog a hostelau – eu casglu'n ddyddiol, ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr.

Ar ddechrau pob mis, anfonir ffurflen defnydd at banel o weithredwyr. Gofynnir iddynt gofnodi, ar gyfer pob uned, ar sail ddyddiol: p'un ai yw'r uned heb fod ar gael i'w llogi, wedi ei harchebu neu ar gael; ac uchafswm y rhent wythnosol a godwyd yn ystod cyfnod pedair neu bum wythnos yr arolwg. Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Cafodd y dadansoddiad ei ail-redeg ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffurflenni a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran yma o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ailredeg blynyddol a gallant fely fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y caiff cyfraddau defnydd unedau eu cyfrif.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfradd defnydd unedau =** | **Cyfanswm nifer unedau a ddefnyddiwyd** / **Cyfanswm nifer yr unedau ar gael** | **X 100** |

**Methodoleg cartrefi gwyliau carafan a chabannau**

Gan adlewyrchu natur dymhorol y math yma o lety, yn 2009 a 2010, gofynnwyd i weithredwyr roi data o Fawrth – Hydref cynhwysol (yn 2008, roedd y cartrefi gwyliau carafnnau sefydlog yn cynnwys cyfnod llawn o ddeuddeg mis).

Caiff ffigurau defnydd ar gyfer carafanau sefydlog eu casglu ar sail ddyddiol ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr. Anfonir ffurflen defnydd at banel o weithredwyr ar ddechrau pob mis. Gofynnir iddynt gofnodi nifer y carafanau sefydlog a'r cabannau sydd ar gael bob nos ac ar sail ddyddiol, y nifer a osodwyd (ar gyfer carafanau a chabannau ar wahân). Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Caiff y dadansoddiad ei ail-redeg ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys

unrhyw ffurflenni a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran yma o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ailredeg blynyddol a gallant felly fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y caiff y cyfraddau defnydd lleiniau eu cyfrif.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfradd defnydd lleiniau =** | **Cyfanswm nifer y lleiniau a ddefnyddiwyd** / **Cyfanswm nifer y lleiniau ar gael** | **X 100** |

**Methodoleg parciau carafanau teithio a gwersylla**

Fel gyda chartrefi gwyliau carafanau a chabannau, gan adlewyrchu natur dymhorol y math yma o lety, yn 2009 a 2010 gofynnwyd i weithredwyr roi data o Fawrth – Hydref cynhwysol (yn 2008 roedd y sector yma hefyd yn cynnwys cyfnod llawn o ddeuddeg mis).

Caiff y ffigurau defnydd ar gyfer yr arolwg eu casglu'n ddyddiol ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr. Ar ddechrau pob mis, anfonir ffurflen defnydd at banel o weithredwyr. Gofynnir iddynt nodi'r nifer o garafanau a lleiniau pabell ar gael fesul noson ac ar sail ddyddiol, y nifer a osodwyd (lleiniau carafanau a phebyll ar wahân). Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Caiff y dadansoddiad ei ail-redeg ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffurflenni a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran yma o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ail-redeg blynyddol a gallant felly fod yn wahanol i'r ffigurau a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y caiff cyfraddau defnydd lleiniau eu cyfrif.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfradd defnydd lleiniau =** | **Cyfanswm nifer y lleiniau a ddefnyddiwyd** / **Cyfanswm nifer y lleiniau ar gael** | **X 100** |

**Methodoleg bynciau a thai bync1au**

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer yr arolwg hostelau a thai byncIau yn debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn derbyn ffurflen defnydd ar ddechrau pob mis lle gofynnir iddynt gofnodi, ar sail ddyddiol, gyfanswm nifer y gwesteion sy'n aros, a'r nifer o leoedd gwely sydd ar gael. Yn wahanol i westai, oherwydd bodolaeth llety arddull dormitori, ni ofynnir i weithredwyr hostelau faint o ystafelloedd a ddefnyddir.

Gofynnir i hostelau hefyd gofnodi os yw gwesteion o'r Deyrnas Unedig neu dramor. Gofynnir i dai byncIau gofnodi, ar gyfer pob diwrnod, gyfanswm nifer y gwesteion heb eu rhannu rhwng y Deyrans Unedig neu dramor. Fodd bynnag, gofynnir iddynt hefyd nodi unrhyw ddiwrnod lle'r oedd yr holl sefydliad wedi ei archebu gan grŵp. Yn yr achos yma, cymerir fod nifer y gwesteion yr uchafswm posibl.

Caiff y ffurflenni a lenwyd eu dychwelyd i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Cafodd y dadansoddiad ei ail-redeg ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffurflenni a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran yma o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ail-redeg blynyddol a gallant fely fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y caiff y cyfraddau defnydd gwelyau eu cyfrif.

$$\textbf{Cyfradd defnydd gwelyau} = \frac{\textbf{Cyfanswm nifer lleoedd gwely a ddefnyddiwyd}}{\textbf{Cyfanswm nifer y lleoedd gwely ar gael}} \times 100$$

**Canlyniadau Tueddiadol – llety heb wasanaeth**

Cyflwynwyd ffigurau cymharol o 2006 a 2007 (pan gynhaliwyd yr arolwg gan wahanol gontractwr) ym mhob rhan o'r adran lle maent ar gael ac yn addas. Gwnaed newid sylfaenol i'r dadansoddiad o weithredwyr annibynnol o fewn y sector hunanddarpar gan yr asiantaeth yn gyfrifol am yr arolwg hyd at 2007. O 2006 ymlaen, dim ond pan oedd cyfleuster ar gael i'w logi yr adroddwyd ar y data. Cyn hyn, nid oedd lefelau defnydd yn rhoi cyfrif swyddogol ar argaeledd a chafodd cyfnodau pan nad oedd cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn talu eu dosbarthu mewn modd gwahanol gan weithredwyr unigol. O ran cysondeb, dim ond o 2006 ymlaen felly yr ydym wedi rhoi dadansoddiad tueddiad o ddefnydd hanesyddol gan sicrhau bod y ffigurau a ddadansoddwyd yn fethodolegol gyson. Ar gyfer symlrwydd a lle'n briodol, rydym wedi defnyddio'r canllaw tueddiadol yma at bob segment hunanddarpar.

Dylid nodi fodd bynnag bod angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r canlyniadau tueddiadol. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cysondeb ar draws yr arolwg, gall elfen o amrywiad arolwg fodoli pan drosglwyddir arolwg a gynhaliwyd am amser maith rhwng dwy asiantaeth.

**Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol**

Mae'r tabl islaw yn rhoi diffiniad o'r rhanbarthau a ddefnyddir yng Nghymru ar yr arolwg defnydd.

| | |
|---|---|
| *Gogledd*: | Ynys Môn, gogledd Gwynedd (Sir Gaernarfon), Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. |
| *Canolbarth*: | Ceredigion, Powys a de Gwynedd (Meirionnydd). |
| *De*: | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. |
| *De Ddwyrain*: | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd. |
| *De Orllewin*: | Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. |

**Pwysoliad**

Cafodd data ar gyfer yr arolygon â gwasanaeth a hunanddarpar eu pwysoli yn ôl data a gafwyd gan Croeso Cymru. Caiff y data â gwasanaeth ei bwysoli gan ddata stoc gwelyau 2007 ar sail ardal (Gogledd, Canolbarth De) a maint sefydliad h.y. nifer ystafelloedd (1-3, 4-10, 11-25, 26-50, 51-100, 101 neu fwy). Rhoddir adroddiad ar unedau hunanddarpar ar wedd canrannau wedi'u pwysoli. Mae'r pwysoliad ar sail nifer unedau/eiddo y sydd gan bob gweithredydd ar gael i'w gosod o fewn Cymru yn ystod y tymor gwyliau o gymharu â'r cyfan hysbys yn 2005. Ni chaiff data ar gyfer yr arolygon o barciau carafanau teithiol a gwersylla a hostelau a thai bynciau eu pwysoli.

**Lwfans gwallau**

Oherwydd natur y samplau ar gyfer yr arolygon hyn, sy'n dethol eu hunain ac felly nid yn wirioneddol ar hap, nid yw'n bosibl cyfrif lwfansau ystadegol o wallau ar gyfer y data o'r arolygon yma

# 3. Gwestai

Mae Adran 3 yr adroddiad yn rhoi lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer gwestai. Mae manylion am fethodoleg yr arolwg yn Adran 2.

**Maint y Sampl**


Cymerodd cyfanswm o 139 gwesty ran yn yr arolwg yn 2010 (h.y. dychwelyd o leiaf un ffurflen yn ystod y flwyddyn). I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, gwnaed llawer o ymdrech i geisio cadw lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymateb llawn dros y flwyddyn. Rhoddodd dros hanner (53%) y gweithredwyr a gyfrannodd at yr arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 12% arall ddata am bob mis heblaw un yn y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, recriwtiwyd 8 gwesty gan awdurdodau lleol i gymryd rhan yn yr arolwg Fodd bynnag, yn yr un cyfnod fe wnaeth 13 o sefydliadau un ai adael neu gael eu dileu o'r arolwg. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r sampl gan nad oeddent wedi anfon ffurflenni dros gyfnod hir. Mae amrywiaeth fawr o resymau pam fod sefydliadau wedi gadael yr arolwg: newid mewn perchnogaeth/rheolaeth, gweithredwyr yn rhy brysur i lenwi ffurflenni ar adegau brig o'r flwyddyn, afiechyd, ymddeoliad, gweithredwyr a sefydliadau'n rhoi'r gorau i fasnachu fel gwestai. Yn ychwanegol, mae hefyd 'flinder ymatebwyr' lle mae rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am beth amser yn credu eu bod wedi *"gwneud eu pwt dros yr arolwg".* Gall hyn fod yn neilltuol o amlwg ar ddechrau blwyddyn arolwg newydd.

**Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd**

Y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2010 oedd 43% a 59% yn yr un drefn. Mae hyn yn gynnydd bychan o un pwynt canran ar y cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn 2009 (42% a 58% yn yr un drefn).


**Ffigur 3-1 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)**




**Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd**

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2010 yn Ffigur 3-2 islaw

**Ffigur 3-2 – Gwestai – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2010 (%)**




Fel mewn blynyddoedd diweddar, mae'r cyfraddau defnydd a gofnodwyd yn 2010 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 26% yn ystod Ionawr 2010, gan gynyddu i frig o 57% yn Awst cyn gostwng i 29% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf,

gyda chyfraddau o 69% i 70% rhwng Mehefin a Medi, a’r cyfraddau isaf yn Ionawr a Rhagfyr (39% a 42% yn yr un drefn).

**Table 3-1 - Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd – Cyfartaledd Misol (%)**

| | Defnydd ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 33 | 36 | 37 | 35 | 40 | 38 | 40 | 39 | 40 | 39 |
| Chwefror | 43 | 47 | 48 | 49 | 48 | 50 | 50 | 50 | 48 | 50 |
| Mawrth | 44 | 50 | 50 | 52 | 52 | 51 | 53 | 54 | 51 | 53 |
| Ebrill | 49 | 52 | 56 | 54 | 57 | 58 | 58 | 56 | 58 | 60 |
| Mai | 61 | 60 | 62 | 63 | 63 | 65 | 65 | 66 | 62 | 64 |
| Mehefin | 63 | 63 | 63 | 65 | 65 | 66 | 67 | 66 | 68 | 69 |
| Gorffennaf | 66 | 65 | 66 | 67 | 67 | 70 | 67 | 67 | 70 | 70 |
| Awst | 70 | 67 | 69 | 68 | 69 | 73 | 73 | 71 | 70 | 69 |
| Medi | 64 | 65 | 67 | 69 | 69 | 71 | 71 | 69 | 69 | 70 |
| Hydref | 58 | 58 | 58 | 58 | 58 | 61 | 62 | 61 | 63 | 63 |
| Tachwedd | 53 | 50 | 50 | 52 | 50 | 53 | 55 | 54 | 54 | 54 |
| Rhagfyr | 43 | 42 | 43 | 45 | 43 | 44 | 47 | 45 | 47 | 42 |
| *Cyfartaledd Blynyddol* | *54* | *55* | *56* | *57* | *57* | *58* | *59* | *58* | *58* | *59* |

Roedd y cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd yn ystod 2010 ychydig yn uwch nag yn 2009 mewn nifer o fisoedd. Roedd y cyfraddau defnydd ystafelloedd cyfartalog a gofnodwyd rhwng Chwefror a Mai 2010 cynhwysol ddau bwynt canran yn uwch na’r rhai a gofnodwyd ar gyfer yr un misoedd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd diwedd llai cadarnhaol i’r flwyddyn gyda gostyngiad o bum pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer Rhagfyr (42% o gymharu â 47% yn Rhagfyr 2009).


Parhaodd y cyfraddau defnydd ystafelloedd cyfartalog ar gyfer nifer o fisoedd yn gymharol sefydlog ar gyfer y sector gwestai mewn blynyddoedd diweddar. Yn 2010, roedd y cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd yn ystod misoedd Ebrill, Mehefin, Gorffennaf a Hydref yr uchaf a gofnodwyd ar gyfer y misoedd hyn ers 2001. Gall y tywydd difrifol a gafwyd ar draws y Deyrnas Unedig yn Rhagfyr 2010 fod wedi effeithio ar y gostyngiad i’r gyfradd a gofnodwyd ddiwethaf yn 2002.

Mae Atodiad 1a yn rhoi’r tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau ers 2000.

**Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol**

Mae Ffigur 3-3 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ym mhob rhanbarth o Gymru. Caiff y canlyniadau ar gyfer De Cymru hefyd eu rhoi ar wahân ar gyfer rhanbarthau'r De Ddwyrain a'r De Orllewin.

**Ffigur 3-3 – Gwestai – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2010 (%)**




Yn 2010, cofnododd rhanbarthau'r De Ddwyrain a hefyd y De Orllewin gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 42%, ac roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau Gogledd Cymru yn 45%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, Canolbarth Cymru gofnododd y gyfradd isaf ar ddefnydd gwelyau, oedd ar 38% yn gyfartal i'r hyn a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth hwn yn 2009.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o amrywiaeth rhwng y rhanbarthau pan y'u dadansoddir yn ôl eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfartaleddau blynyddol tebyg o 61% a 62% yn yr un drefn, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 54% a'r rhai yn y Canolbarth y cyfartaledd blynyddol isaf o 49%.

Cyflwynir lefelau defnydd cyfartalog ar gyfer ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol ar gyfer 2010 yn Atodiad 1b ac 1c. Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl awdurdod unedol yn Atodiad 1d ac 1e. Dylid nodi nad yw'r wybodaeth hon bob amser ar gael oherwydd maint bychan y sampl mewn rhai ardaloedd.

## Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Rhoddir cyfraddau defnydd ystafelloedd yn rhanbarthau Cymru ers 2000 yn Nhabl 3-2 islaw. Parhaodd y tueddiad o sefydliadau yn y De Ddwyrain a'r De yn cofnodi'r cyfraddau ystafelloedd uchaf a'r rhai yn y Canolbarth yn isaf, oedd yn amlwg mewn blynyddoedd blaenorol, yn 2010. Er fod y gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd yng Ngogledd Cymru ychydig yn is nag yn 2010 nag yn 2009 (61% a 62% yn yr un drefn), mae hyn yn parhau'n un o'r cyfraddau uchaf a gofnodwyd yn y rhanbarth yma dros y deng mlynedd diwethaf. Cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gynnydd o un pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd rhwng 2009 a 2010 (53% a 54% yn yr un drefn), tra parhaodd y cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer rhanbarthau'r Canolbarth a'r De Ddwyrain yn gyson rhwng y ddwy flynedd.

**Tabl 3-2 - Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
| Gogledd | 53 | 52 | 53 | 54 | 54 | 57 | 59 | 57 | 62 | 61 |
| Canolbarth | 44 | 49 | 51 | 52 | 52 | 53 | 53 | 50 | 49 | 49 |
| De | 58 | 58 | 59 | 60 | 60 | 61 | 61 | 62 | 59 | 60 |
| De Ddwyrain | 61 | 60 | 62 | 63 | 60 | 63 | 63 | 66 | 62 | 62 |
| De Orllewin | 53 | 56 | 54 | 55 | 59 | 58 | 58 | 56 | 53 | 54 |
| CYFAN CYMRU | *54* | *55* | *56* | *57* | *57* | *58* | *59* | *58* | *58* | *59* |


## Canran Gwesteion Traymor

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, yn 2008 diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y casglwyd gwybodaeth am westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd canran y gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd. Ni chesglir yr wybodaeth hon bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o westeion tramor fel canran nosweithiau gwely tramor (seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai ychydig o leoedd degol yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Fel enghraifft, mae canran blynyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen ddull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd.

Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu'n gyson yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2008 a 2010.

**Ffigur 3-4 – Gwestai – Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2010 (%)**





Fel y medrid disgwyl, roedd y defnydd tramor uchaf ymhlith y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 5%-6% rhwng Mai a Medi 2010, ac eithrio mis Awst lle gostyngodd y canran i 4% cyn dychwelyd i 6% ym Medi. Yn Rhagfyr ar 3% y cofnodwyd y canran isaf yn ystod y flwyddyn, gyda chyfran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor yn 5%.

**Tueddiadau yng Nghanran Gwesteion Tramor**


Fel y dangosir yn Ffigur 3-5 islaw, roedd y canran gwesteion tramor a gofnodwyd rhwng 2008 a 2010 yn 5%.

Mae cyfraddau defnydd misol tramor wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, fodd bynnag, o gofio am y cyfrannau cymharol fach a gofnodwyd ni fu'r rhain yn amrywiadau neilltuol o fawr. Mae'r cyfraddau cyfartalog defnydd tramor a gofnodwyd ym Mawrth wedi codi un pwynt canran flwyddyn-ar-flwyddyn rhwng 2008 a 2010, tra cynyddodd cyfradd Hydref gan ddau bwynt canran rhwng 2009 a 2010. Mae'r cyfraddau a gofnodwyd yn 2008 ar gyfer misoedd Gorffennaf, Medi a Thachwedd yn parhau'r uchaf a gofnodwyd dros y cyfnod o dair blynedd.

**Ffigur 3-5 – Gwestai – Tueddiadau Canran Gwesteion Tramor (%)**




**Ffigur 3-6 – Gwestai – Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2010 (%)**





Parhaodd lefelau defnydd tramor rhanbarthau'r Gogledd, y De Ddwyrain a'r De Orllewin yn gyfartal yn 2010 â'r cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarthau hyn yn 2009, tra cynyddodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y Canolbarth gan un pwynt canran (3% yn 2008 a 2009 i 4% yn 2010%). Yn y De Ddwyrain y bu'r amrywiad mwyaf dros y tair blynedd ddiwethaf, lle cofnodwyd cyfradd o 10% yn 2008 o gymharu â 7% ar gyfer y rhanbarth yma yn y ddwy flynedd ddilynol.

**Canran Gwesteion Busnes**

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnir i weithredwyr nodi'r nifer o westeion sy'n aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma.

**Ffigur 3-7 – Gwestai – Canran Gwesteion Tramor 2010 (%)**




Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y canran o westeion busnes ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, tueddiad croes i'r un ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol. Mae hwn yn dueddiad sydd wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer cyrchfannau yn y Deyrnas Unedig. Roedd y gyfran o westeion busnes a gofnodwyd yn Ionawr 2010 yn 22%, cyfradd a ostyngodd i 9% yn Awst cyn cynyddu i 24% yn Nhachwedd, gyda gostyngiad i 20% yn Rhagfyr.


Fel y dangosir yn Nhabl 3-3 ar y dudalen nesaf, roedd y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion busnes yn 15%, y gyfradd isaf a gofnodwyd dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Mae ffigur 2010 yn ostyngiad o dri phwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2009 (18%) a phum pwynt canran yn is na chyfradd 2008 (20%). Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf yn Chwefror 2010 o gymharu gyda'r un mis yn 2009 (19% a 26% yn yr un drefn), a dim ond yn Nhachwedd y cofnodwyd cynnydd, lle'r oedd cyfradd 2010 o 24% bum pwynt canran yn uwch na chyfradd Tachwedd o 19%.

**Tabl 3-3 Tueddiadau mewn Canrannau Gwesteion Busnes**

| | % o westeion busnes | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 36 | 41 | 45 | 41 | 33 | 38 | 31 | 22 |
| Chwefror | 33 | 38 | 37 | 30 | 25 | 26 | 26 | 19 |
| Mawrth | 30 | 39 | 30 | 28 | 21 | 19 | 24 | 20 |
| Ebrill | 21 | 25 | 26 | 15 | 15 | 24 | 17 | 13 |
| Mai | 18 | 24 | 19 | 17 | 18 | 16 | 16 | 15 |
| Mehefin | 19 | 20 | 21 | 17 | 16 | 19 | 20 | 14 |
| Gorffennaf | 17 | 22 | 19 | 17 | 14 | 18 | 17 | 13 |
| Awst | 13 | 15 | 14 | 14 | 10 | 11 | 11 | 9 |
| Medi | 20 | 21 | 22 | 15 | 12 | 18 | 14 | 12 |
| Hydref | 28 | 25 | 25 | 21 | 15 | 21 | 18 | 15 |
| Tachwedd | 38 | 38 | 34 | 24 | 23 | 28 | 19 | 24 |
| Rhagfyr | 26 | 24 | 28 | 18 | 24 | 21 | 17 | 20 |
| ***Cyf. Blynyddol*** | ***23*** | ***27*** | ***25*** | ***20*** | ***18*** | ***20*** | ***18*** | ***15*** |

Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gyfran gwesteion busnes yn sylweddol uwch yn y De Ddwyrain nag yn y rhanbarthau eraill, gyda'r rhanbarth yma'n cynnwys Caerdydd, y brifddinas. Fodd bynnag, yn 2010, gostyngodd y ganran o westeion busnes yn y De Ddwyrain gan naw pwynt canran i 31% o 42% yn 2009. Dyma'r gyfradd isaf a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma ers 2003, fodd bynnag dylid cofio fod y maint sampl y rhanbarth ar gyfer defnydd busnes yn isel ac mae angen gofal wrth drin y canlyniadau. Gostyngodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y Gogledd a'r De Orllewin gan dri phwynt canran rhwng 2009 a 2010, tra cynyddodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y Canolbarth gan ddau bwynt canran i 13% yn 2010, cyfradd debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2008.

**Ffigur 3-8 – Gwestai – Canran Cyfartalog Blynyddol Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth 2003 – 2010 (%)**




## Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fanylach ar wahanol nodweddion y gwestai a'u dylanwad, os oedd dylanwad, ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

### Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Cyflwynir y ffigurau defnydd cyfartalog blynyddol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint gwestai ar gyfer 2010 yn Ffigur 3-9 islaw. Oherwydd maint bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

**Ffigur 3-9 – Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Gwesty – 2010 (%)**




Mae Ffigur 3-9 uchod yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng maint gwestai a chyfraddau defnydd. Cofnododd gwestai gyda dros 100 ystafell gyfradd gyfartalog o 52% ar gyfer defnydd gwelyau, cyfradd 17 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer gwestai gyda 4-10 ystafell, Yn yr un modd, pan y'u dadansoddwyd yn ôl defnydd ystafelloedd, roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer sefydliadau gyda dros 100 ystafell (68%) 23 pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer rhai gyda 4-10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae nifer o ffactorau a fedrai fod wedi cyfrannu at y berthynas gadarnhaol gyffredinol hon. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o fod yn mynd ati i farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

**Tabl 3-4 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafeloedd yn ôl Maint Gwesty (%).**

| | Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| 4-10 ystafell | 43 | 43 | 44 | 48 | 47 | 47 | 46 | 40 | 40 | 45 |
| 11-25 ystafell | 49 | 51 | 50 | 50 | 52 | 53 | 54 | 53 | 55 | 53 |
| 26-50 ystafell | 55 | 53 | 54 | 56 | 56 | 58 | 61 | 62 | 58 | 57 |
| 51-100 ystafell | 60 | 60 | 63 | 66 | 60 | 62 | 64 | 66 | 63 | 66 |
| 101+ ystafell | 67 | 68 | 68 | 68 | 69 | 71 | 68 | 67 | 69 | 68 |


Er mai sefydliadau gyda 4-10 ystafell gofnododd y gyfradd gyfartalog isaf ar gyfer defnydd gwelyau yn 2010, roedd y gyfradd yma bum pwynt canran yn uwch na chyfradd 2009 ar gyfer y sefydliadau hyn (45% a 40% yn yr un drefn). Yn dilyn gostyngiad i 63% yn 2009, dychwelodd cyfradd flynyddol gyfartalog gwestai gyda 56-100 ystafell i gyfradd 2008 o 66% yn 2010, y gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn ers 2001. Dros y deng mlynedd ddiwethaf, bu'r gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd ar gyfer gwestai gyda dros 100 o ystafelloedd yn yr ystod 67% i 71%, gyda chyfradd 2010 o 68% tuag at ben isaf yr ystod.

### Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godwyd fesul person ar gyfer ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau defnydd gwelyau misol pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adran hon o'r adroddiad.

Mae Ffigur 3-10 islaw yn cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2010. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan na chymerodd unrhyw sefydliadau gyda'r tariff yma ran yn yr arolwg yn 2010.

**Ffigur 3-10 – Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2010 (%)**




Yn gyffredinol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd ar gyfer gwestai unwaith eto yn 2010. Sefydliadau'n codi £50-£59.99 gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf (48%), fodd bynnag, ar 46% roedd y gyfradd ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy yn ddeuddeg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan y rhai'n codi £30-£39.99. Pan y'u dadansoddwyd yn ôl defnydd ystafell, roedd perthynas glir yn amlwg, gyda chyfradd o 61% wedi'i chofnodi gan westai'n codi £60 neu fwy o gymharu â 45% ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Mae'n debygol fod gwestai yn y bandiau tariff uwch wedi denu cyfran uwch o westeion busnes yn defnyddio ystafelloedd defnydd sengl.

Ac eithrio gwestai'n codi £60 neu fwy, roedd cyfraddau blynyddol defnydd ystafelloedd yn uwch yn 2010 na'r rhai a gofnodwyd yn 2009. Roedd y cynnydd mwyaf yn bedwar pwynt canran, a ddychwelodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y rhai'n codi £50-£59.99 i lefel 2008 o 59%. Ers 2002 bu'r gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd gwestai'n codi £60 neu fwy yn yr ystod 60%-64%, gyda chyfradd 2010 o 61% tuag at ben isaf yr ystod yma.

Mae Ffigur 3-11 islaw yn dangos y cyfraddau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2003 - 2010.

**Ffigur 3-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)**




**Defnydd yn ôl Lleoliad**

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lân y môr neu mewn ardal wledig/pentref. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Dangosir y ffigurau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl lleoliad yn Ffigur 3-12 islaw.

**Fifiogur 3-12- Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Gwesty - 2010 (%)**




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd y lefelau blynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau yn 2010 gan sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr (48% a 66% yn yr un drefn). Cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer gwestai mewn trefi bach (40%), a chofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn lleoliad gwledig/pentref (53%). Yn flaenorol, gwestai mewn dinasoedd a threfi mawr oedd wedi cofnodi’r gwahaniaeth mwyaf rhwng eu cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd a gwely. Fodd bynnag, yn 2010, cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach, gwahaniaeth o 19 pwynt canran.

**Tabl 3-5 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)**

| | Defnydd Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
| Dinas/tref fawr | 66 | 69 | 72 | 69 | 67 | 71 | 71 | 71 | 69 | 66 |
| Tref fach | 54 | 52 | 53 | 54 | 56 | 57 | 57 | 53 | 55 | 61 |
| Glan môr | 56 | 56 | 57 | 56 | 56 | 57 | 62 | 60 | 58 | 59 |
| Gwledig/pentref | 48 | 49 | 52 | 53 | 53 | 53 | 52 | 53 | 52 | 53 |


Rhwng 2009 a 2010, cynyddodd cyfradd gyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ym mhob ardal ac eithrio dinasoedd a threfi mawr, lle gostyngodd o 69% i 66%. Cynyddodd cyfradd

gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn trefi mawr o 55% i 61%, y gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn dros y deng mlynedd diwethaf.

## Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai hefyd eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru). Ar y sail yma, nid oes unrhyw ffigurau cymharol ar gael cyn 1999. Oherwydd meintiau bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 1 seren.


**Ffigur 3-13 – Defnydd Blynyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2010 (%)**




Gwestai heb eu graddio o fewn cynllun graddiad Croeso Cymru gofnododd y cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2010 o 36% a 52% yn yr un drefn. O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 57% a 67% ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn yr un drefn.

Fel y dangosir yn Ffigur 3-14 ar y dudalen nesaf , mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai gyda graddiad 4 seren (64%) wedi parhau'n gyfradd uchaf a gofnodwyd ers 2004. Er y cofnodwyd gostyngiad o un pwynt canran ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 5 seren, ar 67%, mae'r gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer y gwestai hyn  yn parhau'n un o'r uchaf a gofnodwyd dros y saith mlynedd ddiwethaf. Cofnododd sefydliadau heb raddiad gynnydd o chwe phwynt canran rhwng 2009 a 2010, gyda'r gyfradd hon (52%) hefyd yr uchaf a gofnodwyd ers 2004. Cyflwynir ffigurau cyfartalog defnydd ystafelloedd yn Atodiad 1b ac 1c.

**Ffigur 3-14 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfartalog Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Gwesty (%)**



# 4. Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Gweler Adran 2 i gael manylion methodoleg yr arolwg.

**Maint y Sampl**

Cymerodd 141 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast ran yn yr arolwg yn 2010 h.y. rhoi gwybodaeth defnydd am o leiaf un mis yn ystod y flwyddyn. I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, rhoddwyd cryn ymdrech i geisio cynnal lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymatebion ar gyfer pob mis o'r flwyddyn.


Rhoddodd 52% o'r gweithredwyr (87) a gyfrannodd at yr arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 11% (15) arall ddata am bob mis heblaw un.

Yn ystod 2010, recriwtiwyd 12 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast i gymryd rhan yn yr arolwg. Fel gyda gwestai, roedd hyn yn rhannol yn ganlyniad mwy o gydweithredu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod gadawodd 17 o sefydliadau yr arolwg neu gael eu dileu ohono. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r arolwg gan nad oeddent wedi dychwelyd ffurflenni am gyfnod hir ac roedd y rhesymau am adael yr arolwg yn cynnwys afiechyd, henaint, prysurdeb, wedi ymddeol a sefydliadau'n cael eu gwerthu neu heb fod yn gweithredu mwyach.

## Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Fel y dangosir yn Ffigur 4-1 islaw, mae cyfraddau defnydd cyffredinol ar gyfer Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast yn dal heb adfer o effeithiau'r dirwasgiad economaidd. Gostyngodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ill dau gan un pwynt canran yn 2010 i 29% a 37% yn yr un drefn, yr un cyfraddau ag a gofnodwyd yn 2008. Dyma'r cyfraddau defnydd isaf a gofnodwyd dros y naw mlynedd ddiwethaf.


**Ffigur 4-1 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)**




## Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â chyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2010 yn Ffigur 4-2 islaw.

**Ffigur 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd 2010 (%)**




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Medi). Amrywiodd lefelau defnydd gwelyau o 10% yn Ionawr

i frig o 47% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn dilyn patrwm tebyg gan ddringo o 15% yn Ionawr i 57% yn Awst cyn gostwng i 18% yn Rhagfyr 2010

Fel y dangosir yn Nhabl 4-1 islaw, roedd y ffigurau defnydd cyfartalog blynyddol yn gyfartal neu is ar gyfer mwyafrif misoedd 2010 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn gyson ym Mawrth ac Ebrill, gydg amseriad cyfnod gwyliau'r Pasg yn hwb i ffigurau Ebrill. Cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf rhwng 2009 a 2010 gan fisoedd Mai a Rhagfyr (tri phwynt canran yr un) gyda'r ddwy gyfradd yr isaf a gofnodwyd ar gyfer y misoedd hyn ers 2002.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau yn Atodiad 2a.

**Tabl 4-1 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)**


| | Defnydd ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 14 | 22 | 21 | 22 | 26 | 17 | 19 | 18 | 17 | 15 |
| Chwefror | 20 | 26 | 27 | 27 | 29 | 27 | 27 | 26 | 25 | 24 |
| Mawrth | 14 | 34 | 30 | 29 | 36 | 28 | 29 | 30 | 27 | 27 |
| Ebrill | 24 | 33 | 45 | 44 | 40 | 42 | 40 | 34 | 38 | 38 |
| Mai | 34 | 45 | 52 | 49 | 49 | 52 | 49 | 46 | 45 | 42 |
| Mehefin | 38 | 57 | 50 | 57 | 56 | 57 | 50 | 45 | 48 | 50 |
| Gorffennaf | 51 | 60 | 61 | 64 | 63 | 65 | 54 | 54 | 54 | 53 |
| Awst | 60 | 70 | 72 | 73 | 72 | 71 | 66 | 59 | 59 | 57 |
| Medi | 42 | 54 | 54 | 56 | 59 | 56 | 51 | 47 | 51 | 50 |
| Hydref | 32 | 41 | 39 | 43 | 41 | 43 | 39 | 38 | 39 | 39 |
| Tachwedd | 22 | 29 | 30 | 28 | 24 | 28 | 27 | 25 | 25 | 25 |
| Rhagfyr | 17 | 24 | 24 | 25 | 20 | 27 | 19 | 21 | 21 | 18 |
| *Cyf. Blynyddol* | *31* | *42* | *43* | *44* | *44* | *43* | *40* | *37* | *38* | *37* |

### Cyfraddau Defnydd Rhanbrthol

Mae Ffigur 4-3 islaw yn cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru yn 2010. Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad hwn.

Cyflwynir lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl awdurdod unedol yn Atodiad 2d a 2e. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ym mhob rhanbarth oherwydd maint bychan y sampl.

**Ffigur 4-3 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2009 (%)**




Fel yn 2009, roedd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau yn rhanbarth y De Orllewin yn 2010 (34%). Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd gyfradd gyfartalog flynyddol o 32% ar gyfer defnydd gwelyau tra cofnodwyd cyfraddau is yn y De Ddwyrain (27%) a'r Canolbarth (25%). Roedd y gyfradd gyfartalog defnydd ystafelleodd ar gyfer sefydliadau yn y Canolbarth yn 32%, cyfran is nag a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth arall.

### Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd ym mhob rhanbarth ers 2000 yn Nhabl 4-2 islaw.

**Tabl 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)**

| | Defnydd ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Gogledd Cymru | 29 | 38 | 40 | 42 | 44 | 43 | 41 | 35 | 39 | 39 |
| Canolbarth Cymru | 24 | 33 | 33 | 33 | 34 | 33 | 33 | 29 | 33 | 32 |
| De Cymru | 37 | 50 | 49 | 50 | 49 | 48 | 44 | 43 | 40 | 38 |
| De Ddwyrain Cymru | 37 | 52 | 52 | 52 | 51 | 49 | 46 | 43 | 40 | 38 |
| De Orllewin Cymru | 36 | 48 | 46 | 48 | 47 | 48 | 43 | 43 | 39 | 39 |
| *Cyfanswm Cymru* | 31 | 42 | 43 | 44 | 44 | 43 | 40 | *37* | *38* | *37* |


Reodd y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn y Gogledd yn gyfartal gyda'r hyn a gofnodwyd yn y rhanbarth hwn yn 2009 (39%), tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer y Canolbarth ychydig gan un pwynt canran i 32%. Mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd 2010 ar gyfer y rhanbarthau hyn yn parhau'n uwch na'r rhai a gofnodwyd yn 2008. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd y De Ddwyrain ddau bwynt canran yn is nag yn 2009 a dyma'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2002. Mae'r rhanbarth yma'n draddodiadol wedi denu cyfran uwch o ymwelwyr busnes, a all olygu bod y teithwyr hyn yn defnyddio'r sector yma'n llai aml. Roedd y gyfradd ar gyfer y De Orllewin hefyd ar ei isaf am naw mlynedd.

**Canran Gwesteion Tramor**

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol (Adran 3), bu newid bychan yn y ffordd y cesglir data ar gyfer gwesteion tramor. Yn 2008, diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddir i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth am westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a thramor) a chyflwynwyd y canran gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb bod ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd yn cael eu cymharu ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2008 a 2010.

**Ffigur 4.4 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2010 (%)**





Yn draddodiadol, bu'r canran o westeion tramor ar ei uchaf yn ystod cyfnod Mai i Medi. Er bod cyfradd Gorffennaf 2010 yn un o'r uchaf ar 15%, cofnodwyd cyfradd o 15% ar gyfer Rhagfyr

2010. Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd cyfraddau cyffredinol ar gyfer defnydd yn Rhagfyr yn is nag yn 2009, gan ddangos i sefydliadau yn y sector yma dderbyn cyfran is o ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig yn ystod y mis, mae'n debyg oherwydd tywydd difrifol y gaeaf.

### Tueddiadau mewn Canran o Ymwelwyr Tramor


Ar draws y tair blynedd a ddangosir yn Ffigur 4-5, ni fu amrywiad sylweddol yn y canran gwesteion tramor, gan aros yn yr ystod 11%-12%. Fodd bynnag, bu rhai amrywiadau sylweddol yn ôl misoedd. Roedd canran yr ymwelwyr tramor a gofnodwyd yn ystod Gorffennaf 2008 (21%), chwe phwynt canran yn is na'r gyfradd gymharol ar gyfer 2010 (15%), tra bod cyfradd Rhagfyr 2010 ddwywaith yr hyn a gofnodwyd yn 2008 (16% a 8% yn yr un drefn).

**Ffigur 4-5 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Canrannau Gwesteion Tramor**




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y De Ddwyrain (sy'n cynnwys Caerdydd, y brifddinas, fydd bob amser yn denu cyfran uwch o ymwelwyr tramor), gofnododd y gyfran uchaf o ddefnyddwyr tramor yn 2010 (18%), cyfradd ychydig yn is nag a gofnodwyd mewn blynyddoedd blaenorol (21% yn 2008 a 20% yn 2009). Rhwng 2009 a 2010, cynyddodd canran ymwelwyr tramor y De Orllewin a'r Canolbarth gan ddau bwynt canran, tra arhosodd cyfradd y Gogledd ar yr un lefel.


**Ffigur 4-6 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008-2010 (%)**



## Canran Gwesteion Busnes

Fel gyda gwestai, ers Chwefror 2001 gofynnwyd i weithredwyr tai llety a sefydliadau gwely a brecwast gofnodi nifer y gwesteion sy'n aros ar gyfer dibenion busnes.


**Ffigur 4-7 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Canran Gwesteion Tramor – 2010 (%)**




Cyfran gyfartalog flynyddol gwesteion busnes mewn sefydliadau gwely a brecwast a thai llety yn 2010 oedd 20%, gostyngiad o 1 pwynt canran o gymharu â 2009 a chyfartal â'r hyn a gofnodwyd yn 2008. Roedd canran gwesteion busnes ar ei uchaf yn Ionawr 2010, oedd yn 61% ac wyth pwynt canran yn uwch na chyfradd 2009 o 53% ond yn is na chyfradd 2008 o 67%. Roedd y gyfran o westeion busnes ar ei isaf yn Awst (10%).

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfran gwesteion busnes yn y De Ddwyrain yn sylweddol uwch nag yn y rhanbarthau eraill (39% o gymharu gyda 15% yn y Gogledd a'r Canolbarth). Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r hyn a ddangosir ar gyfer gwestai, lle cofnododd y De Ddwyrain hefyd lefelau ddefnydd busnes uwch.

**Ffigur 4-8 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast– Canran Cyfartalog Blynyddol Gwesteion yn ôl Rhanbarth 2010 (%)**



## Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau


Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fwy manwl ar wahanol fathau o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast a gyfrannodd at yr arolwg ac unrhyw effaith a gafodd y ffactorau hyn ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

### Defnydd yn ôl maint Tŷ Llety/sefydliad Gwely a Brecwast

Oherwydd maint bychan y sampl yn llawer o'r categorïau maint mwy, dim ond ar gyfer dau gategori o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast y cyflwynir cyfraddau defnydd: 1-3 ystafell a 4-10 ystafell.

Cyflwynir ffigurau defnydd misol cyfartalog gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint tŷ llety a sefydliad gwely a brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

**Ffigur 4-9 – Defnydd Blynyddol yn ôl maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2010%**




Fel yr adroddwyd yn flaenorol ar gyfer y sector yma ac ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod cyd-berthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliad. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau cyfartalog blynyddol o ddefnydd gwelyau ac ystafelloedd o 32% a 40% yn yr un drefn o gymharu gyda 26% a 32% yn yr un drefn ymysg y rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'r defnydd uwch yn y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes.

**Tabl 4-2 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Blynyddol Ystafelloedd yn ôl maint Gwesty/Sefydliad Gwely a Brecwast (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| 1-3 ystafell | 26 | 33 | 34 | 36 | 36 | 34 | 33 | 31 | 30 | 32 |
| 4-10 ystafell | 36 | 45 | 45 | 48 | 48 | 47 | 47 | 40 | 43 | 40 |


Er i sefydliadau gyda 4-10 ystafell gofnodi cyfraddau defnydd uwch na sefydliadau llai, roedd cyfradd gyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y sefydliadau hyn dri phwynt canran yn is yn 2010 nag yn 2009 (40% a 43% yn yr un drefn), gyda chyfradd 2010 yr isaf a gofnodwyd dros y naw mlynedd ddiwethaf. Cynyddodd y gyfradd ar gyfer sefydliadau gyda 3-10 ystafell i 32% yn 2010 o 30% yn 2009.

## Defnydd yn ôl Tariff

Fel yn yr arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad. Oherwydd maint y sampl, dylid nodi mai dim ond ar gyfer y sefydliadau hynny gyda thariff o fwy na £20 y rhoddir canlyniadau.


Mae Ffigur 4-10 islaw yn cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2010. Ymddengys fod y rhain yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng tariff a lefel defnydd. Cofnododd sefydliadau yn codi £60 neu fwy gyfraddau cyfartalog blynyddol o 44% ar gyfer defnydd gwelyau a 54% ar gyfer defnydd ystafelloedd o gymharu â 23% a 28% yn yr un drefn ymysg y rhai'n codi £20-£29.99. Rhai'n codi £60 neu fwy hefyd gofnododd y gwahaniaeth mwyaf rhwng eu cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd (deg pwynt canran), gan awgrymu fod y sefydliadau hyn yn derbyn cyfran uwch o ddefnyddwyr busnes.

**Ffigur 4-10 – Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwey a Brecwast – 2010(%)**



Mae Ffigur 4-11 islaw yn cyflwyno cyfraddau defnydd cyfartalog gwelyau yn ôl tariff rhwng 2004 a 2010. Dylid nodi, fel canlyniad i newidiadau yn y bandiau tariff a ddefnyddir i ddadansoddi, nad oes ffigurau cymharol cyn hyn ar gael ac oherwydd maint samplau, nid yw'r canlyniadau ar gyfer rhai categorïau ar gael ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 4-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)**





Cofnodwyd y dirywiad mwyaf mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd dros y saith mlynedd ddiwethaf ar gyfer sefydliadau'n codi £20-£29.99 (o 43% yn 2004 i 28% yn 2010). Bu cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer rhai'n codi £30-£39.99 yn gymharol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf (yn yr ystod 37%-38%), tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer rhai'n codi £40-£49.99 gan saith pwynt canran rhwng 2009 a 2010. Roedd maint sampl sefydliadau'n codi llai na £20 yn rhy fach i'w gynnwys.

### Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad tai llety a sefydliadau gwely a brecwast – mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu mewn lleoliadau gwledig/pentref. Cyflwynir y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd lefelau defnydd ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr yn amlwg uwch na'r rhai mewn trefi bach neu ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, oherwydd maint cymharol fach y sampl, mae angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Serch hynny, yn 2010, roedd y cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd mewn ardaloedd glan môr (37% a 46% yn yr un drefn) a ddilynwyd gan ddinasoedd/trefi mawr (31% a 42% yn yr un drefn).

**Ffigur 4-12 – Defnydd blynyddol yn ôl lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - 2010 (%)**




**Tabl 4-3 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Dinas/tref fawr | 55 | 67 | 70 | 63 | 64 | 67 | 64 | 57 | 54 | 42 |
| Tref fach | 28 | 43 | 39 | 38 | 42 | 41 | 40 | 38 | 40 | 37 |
| Glan môr | 39 | 37 | 44 | 46 | 47 | 47 | 46 | 44 | 42 | 46 |
| Gwledig/pentref | 27 | 41 | 40 | 41 | 41 | 40 | 36 | 33 | 33 | 34 |


Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd gan sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr wedi gostwng o 67% i 42%, y gyfradd isaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn ers 2001. Fodd bynnag, cododd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau glan môr gan bedwar pwynt canran yn 2010 i 46%, cyfradd gyfartal â'r hyn a gofnodwyd yn 2007 a'r gyfradd ail uchaf i'w chofnodi yn y sefydliadau hyn dros y deng mlynedd ddiwethaf. Cofnododd trefi bach ostyngiad o dri phwynt canran rhwng 2009 a 2010 (40% i 37%), tra gwelodd sefydliadau gwledig/pentref gynnydd bychan o 33% i 34% dros yr un cyfnod.

**Defnydd yn ôl Graddiad**

Fel gyda gwestai, dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru), a gyflwynwyd yn 1999.

Mae Ffigur 4-13 islaw'n cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl graddiad ar gyfer 2010. Oherwydd maint bach samplau sefydliadau gyda 1 a 2 seren nid oes dadansoddiad ar gyfer y categorïau graddiad hyn.


**Ffigur 4-13 – Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2010 (%)**




Fel y gwelir yn y siart uchod, roedd perthynas gadarnhaol rhwng lefelau defnydd a graddiad seren yn 2010. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd oedd 11 a 7 pwynt canran yn yr un drefn yn uwch na rhai gyda graddiad 3 seren. Fel yn y tair blynedd blaenorol, roedd gan sefydliadau gyda graddiad lefelau cyfartalog uwch ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd na rhai heb unrhyw raddiad.

Mae Ffigur 4-14 islaw'n dangos y tueddiadau mewn cyfraddau blynyddol defnydd ystafelloedd yn ôl graddiad. Dylid nodi na chyflwynwyd data ar gyfer sefydliadau 1 a 2 seren ac, am rai blynyddoedd blaenorol, ar gyfer sefydliadau 4 a 5 seren oherwydd maint cyfyngedig y sampl.

**Ffigur 4-14 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)**




Rhwng 2009 a 2010, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau heb raddiad gan bedwar pwynt canran i 26%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yma'n parhau'n is na'r hyn a gofnodwyd rhwng 2004 a 2008 (yn yr ystod 33% - 36%). O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, dychwelodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau ym mhob categori i lefelau tebyg i'r rhai a gofnodwyd yn 2008, gyda dim ond sefydliadau 4 seren yn cofnodi cyfradd 2010 oedd ychydig yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2009 (39% a 38% yn yr un drefn).

Rhoddir ffigurau cyfartalog misol a blynyddol ar gyfer y gwahanol raddiadau yn Atodiad 2c a 3c yr adroddiad.


# 5. Pob Llety â Gwasaneth

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer yr holl wahanol fathau o lety â gwasanaeth h.y. gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast.

### Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Mae'r cyfraddau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd pob llety â gwasanaeth wedi parhau'n gyson ar 38% am y tair blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, bu cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd gwelyau yn 52% am y tair blynedd ddiwethaf.


**Ffigur 5-1 – Llety â Gwasanaeth – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)**




### Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn Ffigur 5-2 ar y dudalen nesaf.

**Ffigur 5-2 – Pob Llety â Gwasanaeth – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2010 (%)**




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol eto'n amlwg yn y cyfraddau defnydd misol ar gyfer pob llety â gwasanaeth. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 42% - 53%, tra bod cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 57%-65% yn yr un cyfnod. Mae effaith cyfnod gwyliau'r Pasg yn glir, gyda chynnydd o ddeg pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd gwelyau rhwng Mawrth ac Ebrill a chynnydd o naw pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng y ddau fis yma.


**Canran Gwesteion Tramor**

Gofynnir i weithredwyr nodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl dinasyddiaeth - DU a thramor - ar eu ffurflen defnydd misol. Dylid nodi nad yw pob ymatebydd yn rhoi'r wybodaeth hon.

O ddechrau 2008, ni chasglwyd gwybodaeth cyraeddiadau ar gyfer gwesteion DU a Thramor, ac mae hynny wedi effeithio ar y ffordd y cafodd data ar gyfer gwesteion tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (DU a hefyd dramor) a chyflwynwyd y canran gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau 2008 i 2010.

**Ffigur F-3 – Pob Llety â Gwasanaeth – Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008-2010 (%)**




Mae canran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor wedi parhau ar 7% am y tair blynedd ddiwethaf. Bu peth amrywiad pan y'u dadansoddir yn ôl misoedd unigol dros y tair blynedd ddiwethaf, yn neilltuol tu allan i'r prif dymor twristiaeth. Roedd canran ymwelwyr tramor a gofnodwyd yn Chwefror 2008 yn 3%, ffigur a gynyddodd i 6% yn Chwefror 2009 cyn gostwng ychydig i 5% am yr un mis yn 2010. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu gan un pwynt canran flwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer mis Hydref o 5% yn 2008 i 7% yn 2010.

# 6. Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn amlinellu canlyniadau lefel defnydd allweddol ar gyfer bythynnod a rhandai llety hunanddarpar ac yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr annibynnol ac asiantaethau a ddilyswyd sy'n cynnig bythynnod a rhandai hunanddarpar yng Nghymru. Cynlluniwyd y sampl i fod yn gynrychioladol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu a osodir drwy weithredwyr o'r fath. Mesurir defnydd ar lefel eiddo unigol drwy fynegi nifer yr wythnosau a osodwyd bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

Dylid nodi nad oedd sampl digonol yn 2007 o asiantaethau hunanddarpar (asiantaethau gosod yn cynnig bythynnod a rhandai hunanddarpar yng Nghymru) i gynnal dadansoddiad ar wahân ar eu cyfer. Oherwydd hyn, adroddir data asiantaeth ar gyfer 2008 ymlaen.

**Maint y Sampl**

Mae Tabl 6-1 drosodd yn dangos lefelau ymateb i'r arolwg ar hyd 2010 ar gyfer y gwahanol fathau llety. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd yr arolwg bob mis a'r nifer sydd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif lefel yr ymateb.

**Tabl 6-1 – Maint Sampl – Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar**


| | Nifer unedau | | |
|---|---|---|---|
| | **Dychwelyd Ffurflenni** | **Ar Gau** | **Dadansoddiad Samnpl** |
| Ionawr | 740 | 57 | 683 |
| Chwefror | 753 | 38 | 715 |
| Mawrth | 797 | 15 | 782 |
| Ebrill | 923 | 3 | 920 |
| Mai | 1086 | 1 | 1085 |
| Mehefin | 1082 | 0 | 1082 |
| Gorffennaf | 1140 | 0 | 1140 |
| Awst | 1153 | 0 | 1153 |
| Medi | 1124 | 1 | 1123 |
| Hydref | 1098 | 4 | 1094 |
| Tachwedd | 934 | 11 | 923 |
| Rhagfyr | 631 | 10 | 621 |
| **Cyfartaledd** | **955** | **12** | **943** |

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 267 o ffurflenni ar gyfer 955 uned bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 943 uned i’w dadansoddi.

**Defnydd Misol Unedau**

Mae Ffigur 6-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer 2008 i 2010 ar gyfer gweithredwyr annibynnol ac asiantaethau.

**Ffigur 6-1- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai CYFAN (%)**




Roedd cyfradd misol defnyddio unedau ar gyfer pob math o annedd yn 2010, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan adlewyrchu natur dymhorol y sector. Roedd cyfradd defnydd misol unedau yn 17% yn Ionawr 2010, ffigur a gynyddodd i 81% yn Awst cyn gostwng i 22% yn Nhachwedd. Rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2010, cynyddodd y gyfran hon gan 13 pwynt canran, gan adlewyrchu effaith cyfnod gwyliau'r Nadolig. Y cyfartaledd blynyddol ar gyfer pob uned yn 2010 oedd 45%.

Mae cyfartaledd Mai i Hydref wedi gostwng ychydig bob blwyddyn rhwng 2008 a 2010 o 61% i 59%, er bod hyn wedi dangos llai o amrywiad na'r cyfartaledd blynyddol. Roedd cyfradd blynyddol defnydd unedau ar gyfer 2010 bum pwynt canran yn is na chyfradd 2009 o 50% a dri phwynt canran yn is na chyfradd 2008 o 48%. Pan y'u dadansoddir yn ôl misoedd unigol, medrir gweld yr amrywiad mwyaf tuag at ddiwedd y flwyddyn, gyda gostyngiad blwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer Hydref o 50% yn 2008 i 31% yn 2010. Yn yr un modd, cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau o 36% yn 2008 i 48% yn 2009 cyn gostwng i 35% yn 2010.

Mae Tabl 6-2 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol 2010 ar gyfer gweithredwyr annibynnol. Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd data rhwng 2007 a 2009 hefyd i ddangos tueddiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Ffigur 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Annibynnol(%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 22 | 23 | 2477 | 22 |
| Chwefror | 40 | 40 | 39 | 34 |
| Mawrth | 43 | 43 | 37 | 36 |
| Ebrill | 54 | 48 | 55 | 56 |
| Mai | 69 | 61 | 62 | 58 |
| Mehefin | 76 | 67 | 70 | 67 |
| Gorffennaf | 86 | 76 | 80 | 73 |
| Awst | 93 | 87 | 88 | 86 |
| Medi | 73 | 69 | 72 | 67 |
| Hydref | 60 | 52 | 55 | 49 |
| Tachwedd | 32 | 26 | 27 | 27 |
| Rhagfyr | 39 | 42 | 36 | 34 |
| *Cyfartaledd Mai-Hydref* | *76* | *69* | *71* | *67* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *57* | *53* | *54* | *51* |

Cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2010 oedd 51%, tri phwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd yn 2009, a'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2007. Gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref hefyd o 71% yn 2009 i 67% yn 2010, eto'r gyfradd isaf a gofnodwyd am y pedair blynedd ddiwethaf. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd yr amrywiadau mwyaf rhwng 2009 a 2010 ar gyfer misoedd Gorffennaf (saith pwynt canran) a Hydref (chwe phwynt canran). Nid yw lefelau defnydd wedi adfer hyd yma o'r arafu economaidd yn 2008 ac mae cynnydd mewn costau tanwydd mewn blynyddoedd diweddar hefyd wedi effeithio arnynt.

Mae Tabl 6-3 ar y dudalen nesaf yn cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau ar gyfer 2008 i 2010. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw data defnydd ar gyfer unedau hunanddarpar a osodir gan asiantaethau ar gael ar gyfer 2007.

**Tabl 6-3 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Asiantaeth (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | |
|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 24 | 16 | 13 |
| Chwefror | 36 | 45 | 35 |
| Mawrth | 35 | 44 | 39 |
| Ebrill | 47 | 49 | 44 |
| Mai | 51 | 52 | 49 |
| Mehefin | 51 | 43 | 56 |
| Gorffennaf | 59 | 54 | 64 |
| Awst | 78 | 63 | 78 |
| Medi | 58 | 51 | 56 |
| Hydref | 44 | 36 | 21 |
| Tachwedd | 23 | 17 | 20 |
| Rhagfyr | 29 | 57 | 38 |
| *Cyfartaledd Mai – Hydref* | *57* | *50* | *54* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *45* | *44* | *43* |

Yn 2010, roedd y gyfradd fisol ar gyfer defnydd unedau ar gyfer unedau a osodwyd gan asiant yn amrywio o 13% yn Ionawr i 78% yn Awst i 20% yn Nhachwedd. Fel gyda gweithredwyr annibynnol, cofnododd unedau a osodwyd gan asiantaeth gynnydd rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2010 (o 20% i 38%), gan adlewyrchu cyfnod gwyliau'r Nadolig.

Roedd cyfraddau defnydd unedau a osodwyd gan asiant yn amrywio ychydig yn fwy na'r rhai a osodwyd gan weithredwyr annibynnol gyda chyfartaledd Mai i Hydref ar 57% yn 2008 cyn gostwng i 50% yn 2009 ac yna gynyddu i 54% yn 2010. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ychydig yn fwy cyson, er fod y gyfradd yma wedi gostwng ychydig flwyddyn-ar-flwyddyn o 45% a gofnodwyd yn 2008 i 44% yn 2009 cyn gostwng i 43% yn 2010. Mae cyfradd Awst 2010 o 78% yn gyfartal â'r hyn a gofnodwyd ar gyfer yr un mis yn 2008 ac yn gynnydd o bymtheg pwynt canran ar gyfradd 2009 ar gyfer y mis (63%). Roedd y gyfradd a gofnodwyd yn Rhagfyr 2009 (57%) yn sylweddol yn uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd yn 2008 (29%) a 2010 (38%).


## Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r lefelau defnydd ar draws gwahanol ranbarthau Cymru ar gyfer bythynnod a rhandai. Gan nad oedd unrhyw ffigurau defnydd tueddiadiadol 2007 ar gael ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau, rydym wedi cyflwyno data o 2008 ymlaen, a ffigurau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol o 2007 ymlaen. Mae siart islaw pob tabl yn dangos y ffigurau defnydd ar gyfer pob rhanbarth rhwng 2008 a 2010.

**Tabl 6-4 – Defnydd Misol Unedau – Gogledd Cymru - Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 25 | 25 | 31 | 23 |
| Chwefror | 45 | 42 | 40 | 44 |
| Mawrth | 42 | 45 | 38 | 39 |
| Ebrill | 59 | 47 | 53 | 61 |
| Mai | 73 | 61 | 71 | 68 |
| Mehefin | 83 | 70 | 74 | 73 |
| Gorffennaf | 90 | 76 | 85 | 78 |
| Awst | 92 | 85 | 88 | 86 |
| Medi | 77 | 72 | 82 | 73 |
| Hydref | 63 | 52 | 68 | 57 |
| Tachwedd | 37 | 25 | 38 | 31 |
| Rhagfyr | 40 | 38 | 38 | 36 |
| *Cyfartaledd Mai-Hydref* | *80* | *69* | *78* | *72* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *61* | *53* | *59* | *56* |

**Ffigur 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Gogledd Cymru – 2008 - 2010 CYFAN (%)**





Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer unedau yn y Gogledd ychydig yn is yn 2010 nag yn 2009 (56% a 57% yn yr un drefn) ond roedd yn parhau'n uwch nag yn 2008 (45%). Bu gostyngiad o dri phwynt canran yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2009 a 2010 (74% i 71%), ond eto mae hyn yn parhau'n uwch nag yn 2008 (56%). Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau cyfartalog defnydd unedau ar gyfer Mawrth ac Ebrill wedi cynyddu bob blwyddyn, gyda chyfradd Ebrill 2010 o 61% yn adlewyrchu amseriad cyfnod Gwyliau'r Pasg.

**Tabe 6-5 – Defnydd Misol Unedau – Canolbarth Cymru - Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 24 | 25 | 16 | 16 |
| Chwefror | 41 | 40 | 40 | 27 |
| Mawrth | 42 | 41 | 40 | 38 |
| Ebrill | 48 | 53 | 59 | 60 |
| Mai | 59 | 66 | 64 | 58 |
| Mehefin | 70 | 63 | 70 | 66 |
| Gorffennaf | 85 | 78 | 81 | 74 |
| Awst | 93 | 89 | 91 | 88 |
| Medi | 73 | 68 | 70 | 66 |
| Hydref | 61 | 54 | 54 | 44 |
| Tachwedd | 24 | 27 | 23 | 27 |
| Rhagfyr | 35 | 46 | 31 | 37 |
| *Cyfartaledd Mai-Hydref* | *74* | *70* | *72* | *66* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *55* | *54* | *53* | *50* |

**Fifigur 6-3 – Defnydd Misol Unedau – Canolbarth – 2008 - 2010 CYFAN (%)**





Roedd cyfraddau defnydd y Canolbarth yn 2010 yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn. Roedd cyfradd Ionawr 2010 yn 12%, ffigur a gynyddodd i 78% yn Awst cyn gostwng i 18% yn Nhachwedd. Fel gyda'r rhanbarthau eraill, ac eithrio y Gogledd, roedd cyfradd Rhagfyr 2010 yn uwch nag a gofnodwyd ar gyfer y mis blaenorol, gyda chynnydd o 19 pwynt canran rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2010 ar gyfer y Canolbarth. Roedd cyfartaledd Mai i Hydref yn uwch yn 2010 nag yn 2009 ond yn is nag yn 2008 (52%, 44% a 66% yn yr un drefn). Mae cyfartaledd blynyddol y rhanbarth wedi gostwng o 48% yn 2008 i 41% yn 2010.

**Tabl 6-6 – Defnydd Misol Unedol – De - Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 19 | 18 | 22 | 26 |
| Chwefror | 37 | 38 | 37 | 31 |
| Mawrth | 44 | 41 | 34 | 32 |
| Ebrill | 51 | 46 | 56 | 50 |
| Mai | 69 | 59 | 52 | 52 |
| Mehefin | 72 | 64 | 67 | 63 |
| Gorffennaf | 82 | 74 | 74 | 70 |
| Awst | 94 | 90 | 86 | 85 |
| Medi | 67 | 66 | 65 | 63 |
| Hydref | 57 | 51 | 47 | 48 |
| Tachwedd | 34 | 29 | 21 | 24 |
| Rhagfyr | 41 | 46 | 37 | 30 |
| *Cyfartaledd Mai - Hydref* | *74* | *67* | *65* | *63* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *56* | *52* | *50* | *48* |

**Ffigur 6-4 – Defnydd Misol Unedau – De Cymru – 2008 - 2010 CYFAN (%)**





Cynyddodd cyfradd gyfrartalog defnydd unedau ar gyfer unedau ar draws y De o 26% yn Ionawr i 85% yn Awst, gyda chyfraddau o 24% yn Nhachwedd a 30% yn Rhagfyr 2010. Bu lefelau defnydd yn y De yn gyffredinol yn fwy cyson dros y tair blynedd ddiwethaf yn ystod prif dymor yr haf, gyda chyfartaledd Mai i Hydref yn yr ystod 63% - 65%. Roedd y cyfraddau a gofnodwyd yn Ionawr i Mawrth a Rhagfyr yn sylweddol uwch yn 2008 na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Gostyngodd y cyfartaledd blynyddol o 54% yn 2008 i 48% yn 2010.

**Tabl 6-7 – Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain - Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 38 | 25 | 28 | 54 |
| Chwefror | 51 | 55 | 28 | 52 |
| Mawrth | 47 | 43 | 28 | 32 |
| Ebrill | 50 | 57 | 54 | 53 |
| Mai | 66 | 64 | 46 | 53 |
| Mehefin | 69 | 63 | 68 | 58 |
| Gorffennaf | 76 | 77 | 83 | 67 |
| Awst | 87 | 89 | 83 | 75 |
| Medi | 58 | 75 | 67 | 54 |
| Hydref | 63 | 73 | 58 | 57 |
| Tachwedd | 54 | 49 | 38 | 40 |
| Rhagfyr | 64 | 63 | 59 | 57 |
| *Cyfartaledd Mai - Hydref* | - | *73* | *67* | *61* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *60* | *61* | *53* | *55* |

**Ffigur 6-5 – Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain Cymru – 2008 - 2010 CYFAN (%)**





Yn ystod 2010, amrywiodd cyfraddau defnydd yn y De Ddwyrain o 54% yn Ionawr i 75% yn Awst, 40% yn Nhachwedd a 57% yn Rhagfyr. Cychwynnodd 2010 yn gryf gyda'r gyfradd am Ionawr 26 i 29 pwynt canran yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd y gostynigadau a gofnodwyd rhwng 2009 a 2010 ar gyfer misoedd Mehefin i Hydref yn golygu fod cyfartaledd Mai i Hydref 2010 chwe phwynt canran yn is nag yn 2009 a deuddeg pwynt canran yn is nag yn 2008. Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ychydig o 53% yn 2009 i 55% yn 2010, cyfradd sy'n parhau'n is na chyfradd 2008 o 61%.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Ddwyrain yn ystod 2009.

**Tabl 6-8 – Defnydd Misol Unedau – De Orllewin – Annibynnol (%)**

| | Defnydd Cyfartalog Unedau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 13 | 16 | 20 | 16 |
| Chwefror | 33 | 32 | 40 | 25 |
| Mawrth | 43 | 40 | 36 | 32 |
| Ebrill | 51 | 44 | 56 | 50 |
| Mai | 70 | 58 | 53 | 52 |
| Mehefin | 73 | 64 | 67 | 64 |
| Gorffennaf | 84 | 74 | 73 | 70 |
| Awst | 96 | 90 | 86 | 87 |
| Medi | 70 | 64 | 65 | 65 |
| Hydref | 55 | 44 | 44 | 45 |
| Tachwedd | 28 | 22 | 17 | 20 |
| Rhagfyr | 34 | 39 | 29 | 24 |
| *Cyfartaledd Mai-Hydref* | - | *66* | *65* | *64* |
| *Cyfartaledd blynyddol* | *54* | *49* | *49* | *46* |

**Ffigur 6-6 – Defnydd Misol Unedau – De Orllewin Cymru – 2008 - 2010 CYFAN (%)**




Unwaith ato dangosodd lefelau defnydd ymysg pob gweithredwr yn y De Orllewin natur dymhorol y sector, gan amrywio rhwng 16% yn Ionawr i 87% yn Awst i 20% yn Nhachwedd a 24% yn Rhagfyr. Roedd y cynnydd rhwng Tachwedd a Rhagfyr ar gyfer y rhanbarth yma'n llai amlwg nag ar gyfer y Canolbarth a'r De Ddwyrain. Roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer y rhanbarth yma yn yr ystod 63% - 65% rhwng 2008 a 2010, gan ddangos cryn dipyn o gysondeb rhwng y blynyddoedd ar gyfer y rhanbarth yma yn y prif dymor twristiaeth.

Mae'r gostyngiad o 52% yn 2008 i 46% yn 2010 ar gyfer defnydd blynyddol yn adlewyrchu'r amrywiad cynyddol y tu allan i'r misoedd hyn, yn arbennig yn ystod Chwefror – mae cyfradd 2010 o 25% yn hanner yr hyn a gofnodwyd ar gyfer y mis yma yn 2008 (50%). Mae'r rhanbarth yma hefyd wedi manteisio llai o gyfnod gwyliau'r Nadolig gyda chyfradd 2010 o 24%, bymtheg pwynt canran yn is nag yn 2008.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Orllewin yn ystod 2009.

## Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol o gymharu â Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer unedau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 6-9 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol ynghyd â thueddiadau data 2007 a 2009.

**Tabl 6-9 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – Annibynnol (%)**

| | Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%) | | | | Lleoliad mewndirol Defnydd Unedau (%) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
| Ionawr | 20 | 21 | 25 | 23 | 24 | 22 | 19 | 22 |
| Chwefror | 40 | 44 | 44 | 32 | 40 | 40 | 35 | 30 |
| Mawrth | 47 | 47 | 40 | 39 | 37 | 41 | 33 | 33 |
| Ebrill | 60 | 55 | 51 | 58 | 45 | 50 | 58 | 52 |
| Mai | 74 | 67 | 70 | 60 | 61 | 63 | 55 | 52 |
| Mehefin | 83 | 72 | 76 | 72 | 66 | 64 | 67 | 61 |
| Gorffennaf | 90 | 78 | 85 | 81 | 79 | 77 | 76 | 68 |
| Awst | 95 | 93 | 95 | 93 | 91 | 89 | 86 | 84 |
| Medi | 78 | 72 | 79 | 77 | 65 | 69 | 66 | 60 |
| Hydref | 62 | 49 | 58 | 58 | 56 | 55 | 49 | 43 |
| Tachwedd | 29 | 23 | 21 | 25 | 38 | 29 | 24 | 25 |
| Rhagfyr | 36 | 42 | 34 | 29 | 44 | 44 | 36 | 34 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | **60** | **55** | **57** | **54** | **54** | **54** | **50** | **47** |

Yn 2010, cofnododd unedau a osodwyd yn annibynnol mewn lleoliadau arfordirol gyfradd flynyddol uwch ar gyfer defnydd tramor na rhai mewn ardaloedd mewndirol (54% a 47% yn yr un drefn). Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd unedau arfordirol a mewndirol ar gyfer unedau annibynnol ar gyfer Gorffennaf, Medi a Hydref. Fodd bynnag, cofnododd unedau mewndirol gyfradd defnydd uwch ar gyfer unedau ym mis Rhagfyr (34% o gymharu gyda 29% ymysg unedau arfordirol).

Ers 2007, mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol gydag unedau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol wedi gostwng gan symiau tebyg (chwech a saith pwynt canran yn yr un drefn).

**Tabl 6-10 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – CYFAN (%)**


| | **Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)** | | | **Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2010** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Ionawr | 21 | 24 | 23 | 24 | 21 | 23 |
| Chwefror | 44 | 43 | 33 | 41 | 36 | 34 |
| Mawrth | 47 | 40 | 39 | 42 | 35 | 36 |
| Ebrill | 55 | 51 | 58 | 49 | 60 | 55 |
| Mai | 66 | 70 | 60 | 60 | 60 | 56 |
| Mehefin | 72 | 76 | 72 | 64 | 67 | 62 |
| Gorffennaf | 78 | 85 | 81 | 74 | 76 | 69 |
| Awst | 93 | 95 | 93 | 86 | 87 | 83 |
| Medi | 72 | 79 | 77 | 67 | 69 | 63 |
| Hydref | 49 | 58 | 58 | 50 | 50 | 45 |
| Tachwedd | 23 | 21 | 25 | 24 | 28 | 28 |
| Rhagfyr | 42 | 34 | 29 | 39 | 41 | 35 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | **55** | **56** | **54** | **52** | **52** | **49** |

Ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2010, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau ar gyfer pob annedd mewn ardaloedd arfordirol yn uwch nag ar gyfer unedau mewndirol, yn arbennig rhwng Mai a Medi. Fodd bynnag, cofnododd ardaloedd mewndirol gyfraddau defnydd uwch yn Nhachwedd a Rhagfyr 2010.

## Defnydd yn ôl Tariff

Cyflwynwyd elfen newydd ar gyfer adroddiadau yn 2008 ar gyfer bythynnod a rhandai - dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl yr uchafswm tariff wythnosol a godwyd yn ystod y mis. Rhoddir manylion cyfraddau defnydd misol unedau ar gyfer tariff a ddadansoddwyd yn ôl asiantaeth/gweithredwyr asiantaeth yn Atodiad 3a yr adroddiad. Cyflwynir y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl tariff yn Ffigur 6-7 islaw.

**Ffigur 6-7 Defnydd Cyfartalog Blynyddol Unedau yn ôl Tariff (%)**




Cofnododd unedau yn y tri band tariff uchaf gyfraddau cyfartalog blynyddol tebyg yn 2010 o 52% - 53%. Cofnododd y rhai'n codi llai na £299.99 gyfradd defnydd cyfartalog blynyddol is o 41%.

Mae Tabl 6-11 islaw'n dangos cyfraddau defnydd misol ar draws pob band tariff. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3a.

**Tabl 6-11 – Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Tariff (%)**

| | Tariff | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Defnydd Unedau (%) | | | |
| | **<£299.99** | **£300 -£499.99** | **£500 - £799.99** | **£800+** |
| Ionawr | 26 | 25 | 17 | 17* |
| Chwefror | 29 | 38 | 27 | 17 |
| Mawrth | 27 | 35 | 44 | 34 |
| Ebrill | 40 | 55 | 60 | 57 |
| Mai | 47 | 53 | 63 | 57 |
| Mehefin | 58 | 67 | 68 | 72 |
| Gorffennaf | 53 | 80 | 79 | 78 |
| Awst | 69 | 85 | 88 | 94 |
| Medi | 63 | 75 | 76 | 72 |
| Hydref | 37 | 54 | 56 | 52 |
| Tachwedd | 29 | 30 | 28 | 31 |
| Rhagfyr | 16 | 32 | 33 | 41 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | **41** | **52** | **53** | **52** |


**Sampl <5*

Cychwynnodd anheddau yn codi llai na £500 y flwyddyn gyda chyfraddau defnydd uwch na'r rhai yn y bandiau tariff uwch, a all adlewyrchu cyfraddau rhent is a gynigir yn gynnar yn y tymor. Fodd bynnag, o Ebrill ymlaen, roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau yn uwch ar gyfer anheddau'n codi £500 neu fwy, yn arbennig y rhai yn y band tariff £500-£799.99. Unedau'n codi £800 neu fwy gofnododd y cyfraddau defnydd uchaf yn Awst (94%) a Rhagfyr (41%). Mae'r band tariff yma'n debygol o gynnwys nifer o unedau mawr a gall yn rhwydd fod yn rhain yn fisoedd pan fo grwpiau mwy yn debycach o ddefnyddio llety hunanddarpar.

**Defnydd yn ôl Graddiad**

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o Gynllun Graddiad Croeso Cymru. Mae Ffigur 6-8 islaw'n dangos y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl graddiad.

**Ffigur 6-8 – Defnydd Cyfartalog Blynyddol yn ôl Graddiad (%)**




Ac eithrio unedau 2 seren, a gofnododd y defnydd cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer unedau yn 2010 (60%), cynyddodd lefelau defnydd yn ôl graddiad seren. Cofnododd unedau gyda graddiad 5 seren gyfradd gyfartalog defnydd unedau oedd 13 pwynt canran yn uwch na'r rhai yn y categori 3 seren a 15 pwynt canradd yn uwch nag unedau heb fod yng nghyllun graddiad seren Croeso Cymru (56%, 43% a 41% yn yr un drefn). Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un seren. Hefyd, mae maint y sampl ar gyfer unedau 2 seren yn llai nag ar gyfer categorïau eraill, felly dylid trin y canlyniadau hyn gyda rhywfaint o ofal.

Mae tabl 6-12 ar y dudalen nesaf yn rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad.

**Tabl 6-12 – Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad (%)**

| | Graddiad Seren Defnydd Unedau (%) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2 Seren** | **3 Seren** | **4 Seren** | **5 Seren** | **Heb raddiad** |
| Ionawr | 26 | 23 | 22 | 18 | 14 |
| Chwefror | 36 | 31 | 28 | 31 | 35 |
| Mawrth | 44 | 28 | 31 | 42 | 39 |
| Ebrill | 74 | 45 | 53 | 60 | 44 |
| Mai | 70 | 47 | 50 | 68 | 47 |
| Mehefin | 81 | 52 | 64 | 76 | 55 |
| Gorffennaf | 83 | 62 | 70 | 81 | 64 |
| Awst | 94 | 81 | 86 | 92 | 77 |
| Medi | 75 | 58 | 60 | 81 | 53 |
| Hydref | 53 | 45 | 45 | 56 | 17 |
| Tachwedd | 32 | 14 | 22 | 29 | 19 |
| Rhagfyr | 49 | 28 | 31 | 44 | 31 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | **60** | **43** | **47** | **56** | **41** |

Fel y gwelir yn y tabl uchod, roedd cyfraddau defnydd unedau cyfartalog uchaf ar gyfer unedau yn y categori graddiad 2 seren ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2010, tra mai anheddau heb raddiad gofnododd y cyfraddau isaf ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau 14 pwynt canran yn uwch ymysg unedau 2 seren nag ar gyfer rhai gyda 5 seren yn Ebrill (74% a 60% yn yr un drefn), a chofnododd unedau 5 seren gyfartaleddau misol uwch ar gyfer Medi (81%) a Hydref (56%).

# 7. Cartrefi Gwyliau Carafan a Chabannau

Yn yr adran hon adroddwn ar yr wybodaeth a gasglwyd gan weithredwyr yn cynnig carafanau sefydlog (a/neu gabannau) ar osod. Caiff defnydd ei fesur ar gyfer nifer yr unedau a osodwyd yn ystod y cyfnod adrodd hyd at y cyfanswm sydd ar gael i'w gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Maint y Sampl**

Mae Tabl 7-1 islaw yn rhoi manylion lefelau ymateb i'r arolwg ar hyd 2010 ar gyfer y gwahanol fathau llety. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd ffurflen i'r arolwg bob mis a'r nifer unedau oedd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf, ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif y lefelau ymateb.

**Tabl 7-1 – Maint Sampl – Cartrefi Gwyliau Carafan**


| | Nifer parciau | | |
|---|---|---|---|
| | **Dychwelyd Ffurflen** | **Ar gau** | **Sampl Dadansoddi** |
| Ionawr | Dim ar gael | Dim ar gael | Dim ar gael |
| Chwefror | Dim ar gael | Dim ar gael | Dim ar gael |
| Mawrth | 36 | 18 | 18 |
| Ebrill | 28 | 0 | 28 |
| Mai | 27 | 1 | 26 |
| Mehefin | 28 | 0 | 28 |
| Gorffennaf | 25 | 0 | 25 |
| Awst | 27 | 0 | 27 |
| Medi | 24 | 0 | 24 |
| Hydref | 14 | 0 | 14 |
| Tachwedd | Dim ar gael | Dim ar gael | Dim ar gael |
| Rhagfyr | Dim ar gael | Dim ar gael | Dim ar gael |
| **Cyfartaledd** | **26** | **2** | **24** |

Ar gyfartaledd, dychwelodd 26 ffurflenni bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 24 i'w ddadansoddi.

**Defnydd Misol Unedau**

Mae Ffigur 7-1 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau defnydd ar gyfer 2010 ar gyfer cartrefi gwyliau carafan. Fel y nodwyd yn yr adran methodoleg uchod, casglwyd ffigurau defnydd yn ystod 2010 yn ystod Mawrth-Hydref. Oherwydd y nifer isel o ffurflenni defnydd a ddychwelwyd ym Mawrth 2007 a 2008, dim ond ar gyfer cyfnod mis Ebrill – mis Hydref y cyflwynir ffigurau islaw.

**Ffigur 7-1 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)**




Rhwng Mawrth ac Ebrill 2010, cynyddodd defnydd misol unedau ar gyfer cartrefi gwyliau carafan gan 46 pwynt canran, gan ddangos pwysigrwydd cyfnod gwyliau'r Pasg i'r sector llety yma. Hefyd, mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn Ebrill i fanteisio ar gyfnod gwyliau'r Pasg. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd misol unedau yn amrywio rhwng 64%-91%, gyda'r gyfradd uchaf yn Awst.

Roedd cyfartaledd Mai i Hydref (75%) 11 pwynt canran yn is na chyfradd 2009 o 86% ond mae'n parhau'n uwch nag a gofnodwyd yn 2007 (71%) a 2008 (66%). Roedd tystiolaeth o arolygon eraill i gefnogi'r farn y bu cynnydd mewn tripiau gwyliau domestig yn 2009 a gostyngiad cyfatebol yn y galw am wyliau tramor ymysg preswylwyr y DU. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn lleoliadau glan môr wrth i bobl ddewis gymryd gwyliau yn nes adref.


Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau Ebrill ar ei lefel uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf yn 2010, tra bod cyfradd Medi 2010 o 64% tua 22 pwynt canran yn is nag yn 2009.

## Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi lefelau defnydd cartrefi gwyliau carafan ym mhob un o'r pump rhanbarth yng Nghymru. Dylid nodi fod maint y samplau ar lefel ranbarthol yn isel ac felly bod angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau.


Nodyn: Dim ond un ffurflen defnydd a ddychwelwyd ar gyfer rhanbarth y De Ddwyrain, felly ni chyflwynir canlyniadau.

**Ffigur 7-2 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – Gogledd (%)**





Fel yn 2009, roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer cartrefi gwyliau carafan yn y Gogledd (60%) yn is nag a gofnodwyd ar gyfer rhanbarthau eraill. Roedd hefyd ychydig yn is na'r rhai a gofnodwyd yn 2007 (61%) a 2009 (63%) ond yn uwch nag yn 2008 (53%). Fodd bynnag, pan y'u dadansoddir yn ôl misoedd unigol, roedd y ffigurau cyfartalog defnydd unedau yn Ebrill (46%), Mehefin (73%) ac Awst (91%) yr uchaf a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma dros y pedair blynedd ddiwethaf.

**Ffigur 7-3 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – Canolbarth (%)**





Roedd cyfartaledd Mai i Hydref 2010 ar gyfer cartrefi gwyliau carafan yn y Canolbarth (69%) yn is na chyfartaledd 2009 o 72%, gan ddychwelyd i'r un lefel â'r un a gofnodwyd yn 2007. Roedd y cyfartaleddau misol ar gyfer y Canolbarth yn gyffredinol yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, gydag eithriad Ebrill a Mehefin.

**Ffigur 7-4 – Defnydd Misol Unedau – Cartefi Gwyliau Carafan – De (%)**




Cofnododd y De gynnydd mawr mewn lefelau defnydd ar draws cyfnod Mai i Hydref o bymtheg pwynt canran rhwng 2009 a 2010, gyda chyfartaledd o 77% wedi'i gofnodi am y cyfnod Mai i Hydref 2010.

**Ffigur 7-5 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – De Orllewin (%)**




.

Rhanbarth y De Orllewin gofnododd y cyfartaledd Mai i Hydref uchaf yn 2010 (68%), cyfradd ychydig yn is nag yn 2009 (80%) ond yn uwch nag yn 2008 (65%). Ar gyfer misoedd Ebrill a Mehefin, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau yn 2010 yn uwch nag yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddychwelyd i lefelau tebyg i'r rhai a gofnodwyd yn 2007. Cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer Awst gan bedwar pwynt canran rhwng 2009 a 2010 (90% a 94% yn yr un drefn), tra bod cyfradd Gorffennaf 2010 (67%) saith pwynt canran yn is na'r un a gofnodwyd ar gyfer yr un mis yn y flwyddyn flaenorol.

**Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol v Mewndirol**

Cafodd data defnydd ei ddadansoddi ar gyfer cartrefi gwyliau carafan mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 7-2 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafan yn 2010 ynghyd â'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol, lle mae ar gael.

**Tabl 7-2 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)**

| | **Lleoliadau arfordirol Defnydd Carafanau Sefydlog (%)** | | | | | **Lleoliadau mewndirol Defnydd Carafanau Sefydlog (%)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Mawrth | * | * | * | 56 | 37 | * | * | * | * | 27 |
| Ebrill | 62 | 57 | 52 | 74 | 81 | 58 | 50 | 24 | 46 | 46 |
| Mai | 57 | 67 | 63 | 83 | 81 | 57 | 59 | 48 | 57 | 37* |
| Mehefin | 58 | 73 | 74 | 88 | 87 | 45 | 49 | 48 | 58 | 53 |
| Gorffennaf | 70 | 66 | 75 | 89 | 85 | 80 | 62 | 61 | 55 | 60 |
| Awst | 90 | 92 | 84 | 94 | 91 | 59 | 73 | 93 | 96 | 92 |
| Medi | 93 | 80 | 73 | 90 | 64 | 69 | 44 | 61 | 67 | 64 |
| Hydref | 58 | 56 | 36 | 85 | 46 | 26 | 43 | 41 | 46 | 47* |
| **Cyfartaledd Mai - Hydref** | **68** | **72** | **68** | **88** | **76** | **56** | **55** | **59** | **63** | **59** |

**Sampl <5*

Dylid nodi fod maint y sampl, yn arbennig ar gyfer cartrefi gwyliau mewn lleoliadau mewndirol, yn isel felly mae angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Argymhellwn y gwneir cymhariaethau rhwng cyfartaledd Mai i Hydref.


Ar 76%, mae cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer cartrefi gwyliau carafan mewn lleoliadau arfordirol ddeuddeg pwynt canran yn is nag a gofnodwyd yn 2009 (88%) ond mae'n parhau'n uwch na'r cyfartaleddau a gofnodwyd rhwng 2006 a 2008. Cofnododd safleoedd mewn lleoliadau mewndirol hefyd ostyngiad yn eu cyfartaledd Mai i Hydref o gymharu â 2009 (59% a 63% yn yr un drefn), fodd bynnag cyfradd 2010 yw'r ail uchaf a gofnodwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf.

## Defnydd yn ôl Graddiad

Cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o gynllun graddiad Croeso Cymru. Oherwydd maint bach y sampl tu allan i fisoedd brig yr haf o Fai – Hydref, cyflwynwyd gwybodaeth islaw yn seiliedig ar y cyfnod hwn. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli'r canlyniadau oherwydd maint bach y sampl.

Mae Ffigur 7-6 islaw'n dangos cyfraddau defnydd tymhorol unedau yn ôl graddiad.

**Ffigur 7-6 – Cyfartaledd Defnydd Unedau Mai i Hydref yn ôl Graddiad – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)**




Fel yn 2009, cofnododd cartrefi gwyliau carafan heb raddiad gyfartaledd uwch ym Mai i Hydref na'r rhai gyda graddiad o 4 neu 5 seren (70% a 66% yn yr un drefn). Mae'r ddwy gyfradd hyn ychydig yn is na'r rhai a gofnodwyd yn 2009 (72% a 69% yn yr un drefn).

Oherwydd maint bach y sampl pan y'u dadansoddir yn ôl gradd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, cyfunwyd llety 4-5 seren. Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un neu ddwy seren a dim ond dwy uned oedd â graddiad tair seren.

Mae Tabl 7-3 islaw'n rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad. Mae maint y sampl ar gyfer unedau 1-3 seren yn rhy fach i'w adrodd.

**Tabl 7-3 – Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)**

| | **Defnydd Unedau (%)** | |
|---|---|---|
| | **4-5 Seren** | **Heb raddiad** |
| Mawrth | 23 | 44 |
| Ebrill | 51 | 64 |
| Mai | 53 | 58 |
| Mehefin | 69 | 76 |
| Gorffennaf | 73 | 67 |
| Awst | 93 | 87 |
| Medi | 69 | 75 |
| Hydref | 40 | 55 |
| **Cyfartaledd Mai-Hydref** | **66** | **70** |

Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, unedau heb raddiad gofnododd y cyfraddau defnydd cyfartalog uchaf ar gyfer unedau ar gyfer pob un heblaw dau fis yn y cyfnod Mai i Hydref, yn neilltuol ar gyfer Mawrth ac Ebrill. Fodd bynnag, cofnododd unedau gyda graddiad 4-5 seren gyfraddau cyfartalog uwch ar gyfer defnydd unedau yng Ngorffennaf ac Awst (73% a 93% o gymharu gyda 67% a 87% yn yr un drefn ymysg unedau heb raddiad).

# 8. Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla

Mae’r adran hon o’r adroddiad yn rhoi sylw i barciau sy’n cynnig lleiniau ar gyfer carafanau teithiol a gwersylla. Mae’r elfen hon o’r arolwg yn cwmpasu cyfnod mis Ebrill i fis Hydref cynhwysol, gan ddangos fod y rhan fwyaf o’r safleoedd ar gau yn ystod misoedd y gaeaf.

**Maint y Sampl**

Mae tabl 8-1 islaw yn rhoi manylion lefelau ymateb i’r arolwg ar hyd 2010. Mae’n dangos y nifer a ddychwelodd ffurflen yr arolwg bob mis a’r nifer gyda lleiniau ar gael ar gyfer eu gosod oedd yn ffurfio’r sampl ar gyfer ei ddadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf, ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif y lefel ymateb.

**Tabl 8-1 – Maint Sampl – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla**


| | Nifer parciau | | |
|---|---|---|---|
| | **Dychwelyd Ffurflenni** | **Ar Gau** | **Sampl Dadansoddiad** |
| Ionawr | D/G | D/G | D/G |
| Chwefror | DG | D/G | D/g |
| Mawrth | 53 | 25 | 28 |
| Ebrill | 50 | 2 | 48 |
| Mai | 43 | 0 | 43 |
| Mehefin | 51 | 0 | 51 |
| Gorffennaf | 58 | 0 | 58 |
| Awst | 65 | 0 | 65 |
| Medi | 61 | 0 | 61 |
| Hydref | 47 | 2 | 45 |
| Tachwedd | D/G | D/G | D/G |
| Rhagfyr | D/G | D/G | D/G |
| **Cyfartaledd** | **54** | **4** | **50** |

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 54 ffurflen bob mis, gan roi maint cyfartalog sampl o 50 i’w ddadansoddi.

**Defnydd Misol Unedau**

Mae Ffigur 8-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd tymhorol ar gyfer 2010 ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla a lle'n bosibl, ganlyniadau ar gyfer 2007 i 2009. Oherwydd natur dymhorol y sector hwn, ychydig iawn o ffurflenni a dderbyniwyd y tu allan i'r prif dymor twristiaeth (Ebrill - Hydref), felly dim ond ar gyfer y prif dymor twristiaeth y cyflwynwyd canlyniadau misol a dylid gwneud cymariaethau ar draws y tymor yn seiliedig ar y golofn yn dangos y ffurflenni a ddychwelwyd ym mis Mai i fis Hydref.

**Ffigur 8-1 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla (%)**





Yn dilyn gostyngiad yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2008 a 2009 (53 i 39%), cofnodwyd cynnydd o naw pwynt canran yng nghyfartaledd 2010 (48%). Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau sampl cymharol fach y sector yma, ynghyd ag amrywiad posibl yn yr arolwg rhwng blynyddoedd, i ystyriaeth wrth gymharu data rhwng blynyddoedd.

Mae cyfartaledd uwch Mai i Hydref 2010 yn awgrymu fod rhai o'r ffactorau y credid fod ganddynt effaith negyddol yn 2009 yn llai arwyddocaol yn 2010. Yn 2009, tybid, yn seiliedig ar ddata arolygon eraill, fod cyfran uwch o bobl wedi cymryd eu gwyliau yn nes adref yn y Deyrnas Unedig ar hyd y flwyddyn ac y gall llifogydd yr haf hefyd fod wedi effeithio mwy ar barciau carafanau teithiol a gwersylla nad ydynt fel arfer yn cael eu harchebu gymaint ymlaen llaw â mathau eraill o lety.

## Tueddiadau Rhanbarthol


Mae'r adran yma o'r adroddiad yn crynhoi lefelau defnydd parciau carafanau teithol a gwersylla ar draws pum rhanbarth gwahanol Cymru. Dylid nodi fod meintiau sampl ar lefel ranbarthol yn fach a bod angen gofal wrth ddehongli unrhyw ganlyniadau.

**Ffigur 8-2 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla – Gogledd (%)**




Roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer safleoedd yn y Gogledd yn 2010 (47%) saith pwynt canran yn uwch nag yn 2009 (40%) a'r gyfradd ail uchaf a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma dros y pedair blynedd ddiwethaf. Roedd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau a gofnodwyd rhwng Mehefin a Medi yn neilltuol yn uwch na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer yr un misoedd yn 2009.


**Ffigur 8-3 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla – Canolbarth (%)**




*DS Maint sampl < 5*


Bu cyfraddau cyfartalog defnydd unedau rywfaint yn amrywiol ar gyfer safleoedd yn y Canolbarth dros y blynyddoedd, gyda'r gyfradd ar gyfer 2009 yn gyffredinol yr isaf a gofnodwyd dros y pedair blynedd ddiwethaf. Roedd cyfartaledd Mai i Hydref a gofnodwyd yn 2009 yn 25%, 26 pwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd am yr un cyfnod yn 2010.

**Ffigur 8-4 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla – De (%)**





Roedd cyfradd cyfartalog defnydd unedau Mai i Hydref ar gyfer safleoedd carafanau teihtiol ar draws De Cymru yn 48%, cynnydd o wyth pwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2009.

**Ffigur 8-5 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla – De Ddwyrain (%)**




Er bod cyfraddau defnydd ar gyfer carafanau teithiol yn gyffredinol yn is yn y De Ddwyrain nag mewn rhanbarthau eraill, bu cyfartaledd Mai i Hydref yn gymharol gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda chyfradd 2010 o 34% yn gyfartal i'r hyn a gofnodwyd yn 2009.

**Ffigur 8-6 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla – De Orllewin (%)**




Yn dilyn gostyngiad o 56% yn 2008 i 43% yn 2009, cynyddodd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla yn y De Orllewin gan ddeg pwynt canran yn 2010 i 53%.

**Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol o gymharu â Mewndirol**

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 8-2 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafan yn 2010 ynghyd â data tueddiadol 2006-2009.

**Tabl 8-2 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – Parciau carafanau teithiol a gwersylla (%)**

| | Lleoliadau arfordirol Defnydd Teithiol (%) | | | | | Lleoliadau mewndirol Defnydd Teithiol (%) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Mawrth | * | * | * | 9 | 10 | * | * | * | 15 | 6 |
| Ebrill | 32 | 28 | 21 | 25 | 26 | 24 | 28 | 30 | 22 | 22 |
| Mai | 32 | 37 | 50 | 40 | 31 | 24 | 29 | 56 | 29 | 36 |
| Mehefin | 40 | 37 | 47 | 41 | 49 | 30 | 30 | 59 | 26 | 39 |
| Gorffennaf | 61 | 46 | 60 | 61 | 51 | 36 | 34 | 62 | 28 | 64 |
| Awst | 76 | 72 | 76 | 80 | 70 | 44 | 45 | 68 | 38 | 68 |
| Medi | 29 | 33 | 36 | 38 | 37 | 23 | 28 | 48 | 19 | 48 |
| Hydref | 15 | 17 | 42 | 22 | 21 | 16 | 21 | 37 | 18 | 38 |
| **Cyfartaledd Mai-Hydref** | **42** | **40** | **52** | **47** | **43** | **29** | **31** | **55** | **26** | **49** |

Dylid nodi fod maint y sampl, yn arbennig ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla mewn lleoliadau arfordirol, yn isel felly mae angen gofal wrth ddehongi'r canlyniadau hyn.


Roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd mewndirol yn 2010 yn 43%, cyfradd bedwar pwynt canran yn is na chyfradd 2009 o 43% ac yn debyg i gyfradd 2006 o 42%. Bu cyfartaleddau Mai i Hydref ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd mewndirol yn fwy amrywiol dros y blynyddoedd, gyda chyfradd 2010 o 43% yn 23 pwynt canran yn uwch na chyfradd 2009 o 26% ond yn chwe phwynt canran yn is na chyfradd 2008 o 55%.

**Defnydd yn ôl Graddiad**

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o Gynllun Graddiad Croeso Cymru. Oherwydd maint bychan y sampl tu allan i fisoedd brif yr haf o Fai hyd Hydref, cyflwynwyd gwybodaeth islaw yn seiliedig ar y cyfnod cyflawn yma.

Mae Ffigur 8-7 islaw'n dangos cyfraddau cyfartalog defnydd unedau yn ôl graddiad.

**Ffigur 8-7 – Cyfartaledd Mai - Hydref – Defnydd Unedau yn ôl Graddiad – Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla (%)**




*DS: Sampl 2 seren a 5 seren <5*

Yn 2010, safleoedd heb eu graddio gofnododd y cyfartaledd Mai i Hydref isaf (40%). O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, ymddangosai fod perthynas rhwng lefelau graddiad a defnydd gyda'r cyfartaledd ar gyfer safleoedd 4-5 seren (51%) chwe phwynt canran yn uwch nag ar gyfer rhai gyda 2-3 seren (45%). Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli canlyniadau oherwydd maint bach y sampl.

Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un seren.

Mae Tabl 8-3 ar y dudalen nesaf yn rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad.

**Tabl 8-3 – Defnydd Cyfartalog Misol yn ôl Graddiad (%)**

| | Graddiad Seren Defnydd Unedau (%) | | |
|---|---|---|---|
| | **2-3 seren** | **4-5 seren** | **Heb raddiad** |
| Mawrth | 12** | 9 | 4 |
| Ebrill | 26 | 26 | 18 |
| Mai | 38 | 32 | 27 |
| Mehefin | 49 | 45 | 41 |
| Gorffennaf | 51 | 67 | 50 |
| Awst | 64 | 77 | 55 |
| Medi | 37 | 51 | 38 |
| Hydref | 29 | 37 | 28 |
| **Cyfartaledd Mai - Hydref** | 45 | 51 | 40 |

* Maint sampl bach (2 seren a 5 seren <5); **sampl <5

Rhwng Ebrill a Gorffennaf cynhwysol, cofnododd safleoedd gyda 2-3 seren gyfraddau defnydd uwch na rhai gyda 4-5 seren, ond y gwrthwyneb oedd yn wir rhwng Awst i Hydref. Mae angen gofal wrth ddehongli canlyniadau oherwydd maint isel y sampl pan y'u dadansoddir ar y lefel yma.

# 9. Hostelau a Thai Bynciau

**Maint Sampl**

Mae Tabl 9-1 yn rhoi manylion lefelau ymateb i'r arolwg ar hyd 2010 ar gyfer y mathau llety yma. Mae'n rhoi sylw i'r nifer a ddychwelodd ffurflen i'r arolwg bob mis a'r nifer ar gael ar gyfer archebu oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol i'r gweithredwyr y gwyddem fod eu safleoedd ar gau, ond cawsant eu cyfrif wrth gyfrif lefel ymateb.

**Tabl 9-1 – Maint Sampl – Hostelau a Thai Bynciau**


| | **Nifer safleoedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Dychwelyd Ffurflenni** | **Ar gau** | **Sampl Dadansoddi** |
| Ionawr | 35 | 3 | 32 |
| Chwefror | 35 | 2 | 33 |
| Mawrth | 32 | 0 | 32 |
| Ebrill | 32 | 0 | 32 |
| Mai | 33 | 0 | 33 |
| Mehefin | 33 | 0 | 33 |
| Gorffennaf | 33 | 0 | 33 |
| Awst | 33 | 1 | 32 |
| Medi | 33 | 1 | 32 |
| Hydref | 32 | 0 | 32 |
| Tachwedd | 33 | 0 | 33 |
| Rhagfyr | 32 | 1 | 31 |
| **Cyfartaledd** | **33** | **1** | **32** |

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 33 o ffurflenni bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 32 i'w ddadansoddi.

## Defnydd Misol Gwelyau

Mae Ffigur 9-1 islaw'n cyflwyno'r defnydd misol a blynyddol ar gyfer gwelyau hostelau a thai bynciau yn 2008, 2009 a 2010.

**Ffigur 9-1 – Defnydd Misol Gwelyau – Hostelau a Thai Bynciau – (%)**





Roedd cyfradd fisol defnydd gwelyau yn 14% yn Ionawr 2010. Cynyddodd y ffigur yma i 66% yn Awst cyn gostwng i 23% yn Rhagfyr. Fel gyda sectorau llety eraiill, roedd effaith cyfnod gwyliau'r Pasg yn Ebrill yn amlwg, gyda chynnydd o 16 pwynt canradd yng nghyfradd fisol defnydd gwelyau rhwng Mawrth ac Ebrill 2010 (32% a 48% yn yr un drefn). Erbyn diwedd prif dymor yr haf, gostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn sylweddol, gyda gostyngiad o 22 pwynt canran rhwng Awst (66%) a Medi (44%). 41% oedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2010.

Roedd y cyfraddau a gofnodwyd ar draws 2009 a 2010 yn gymharol gyson, gyda chyfartaledd blynyddol o 41% wedi'i gofnodi ar gyfer y ddwy flynedd. Mae hyn yn cymharu gyda'r cyfartaledd blynyddol o 32% a gofnodwyd yn 2008, lle cofnodwyd cyfartaleddau is ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau cyfartalog misol defnydd gwelyau ar gyfer Awst a Medi wedi codi flwyddyn ar flwyddyn, gyda'r gyfradd ar gyfer Awst wedi codi o 50% i 66% rhwng 2008 a 2010 a chyfradd Medi'n codi o 30% i 44% dros yr un cyfnod.

**Uchafswm ac Isafswm Defnydd Gwelyau**

Mae Ffigur 9-2 islaw'n cyflwyno uchafswm ac isafswm cyfraddau a gofnodwyd yn ystod 2010. Rhoddir gwybodaeth bellach o fewn Atodiad 4b ar ddadansoddiad uchafswm/isafswm ar gyfer pob rhanbarth.

**Ffigur 9-2 – Uchafswm/Isafswm Defnydd Misol Gwelyau – Hostelau a Thai Bynciau (%)**





Ac eithrio Ionawr a Mehefin, mae uchafswm y cyfraddau defnydd gwelyau yn gyffredinol yn dilyn patrwm tymhorol. Gall yr uchafswm defnydd uchel ar gyfer Ionawr adlewyrchu archebion dros gyfnod y Flwyddyn Newydd ac efallai mai dim ond am ran o'r mis y bu rhai hostelau ar agor.

## Defnydd Tramor

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnir i weithredwyr hostelau[1] ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn yr hostel bob nos a'u dinasyddiaeth; un ai DU neu dramor. Dylid nodi nad yw pob sefydliad yn rhoi'r wybodaeth yma – ar gyfartaledd, rhoddodd 55% gyfraddau defnydd misol (dychwelodd 212 ffurflenni ar draws 12 mis yr arolwg).

**Ffigur 9-3 – Defnydd Tramor – Canran Nosweithiau Gwely (%)**





Roedd cryn dipyn o wahaniaeth yn y canran o nosweithiau gwely tramor pan y'u dadansoddwyd yn ôl mis yn 2010. Cofnodwyd y cyfrannau uchaf yn Chwefror (21%), Mehefin (18%) a Rhagfyr (16%). Cafodd amseriad cyfnod gwyliau'r Pasg lai o effaith ar ddefnydd tramor na'r gyfradd gyffredinol, gyda chyfradd defnydd tramor Ebrill 2010 ychydig yn is na Mawrth o'r un flwyddyn (9% a 10% yn yr un drefn). Mae lefelau defnydd tramor yn parhau i fod yn uchel yn y sector yma, gan ddangos fod hostelau yn neilltuol o boblogaidd gydag ymwelwyr tramor.

Ers 2008, cofnodwyd y gwahaniaethau mwyaf yn y canran o nosweithiau gwely tramor ar gyfer misoedd Ionawr a Chwefror, misoedd lle mae llai o sefydliadau yn tueddu i fod ar agor ac felly mae maint y sampl yn debygol o fod yn is.

Dylid nodi fod y canran o nosweithiau gwely tramor yn cyfeirio at nifer y nosweithiau a dreuliwyd gan ymwelwyr tramor fel canran o'r cyfanswm nifer o nosweithiau gwely a werthwyd.

1 Ni ofynnir i weithredwyr tai bynciau wahaniaethu rhwng ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr tramor .

**Ffigur 9-4 – Defnydd Misol Gwelyau Tramor a'r Deyrnas Unedig (%)**





